Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

s/p

2/6

e. 1

# RHETOREG NEU RHEITHEG,

A

DDECHREUWYD

GAN

## MR. WILLIAM SALISBURY,

A ANGHWANEGWYD AC A ORPHENWYD

Gan Mr. HENRI PERRI,

TRWY DRAUL

SIR SION SALISBURY O LEWENI,

*YN SIR DDINBYCH,*

1580.

# EGLURYN FFRAETHINEB,

SEF,

DOSPARTH AR RETOREG,

*UN O'R SAITH GELFYDDYD, YN DYSGU LLUNIAITH YMADRAWDD A'I PHERTHYNASAU.*

GWYNDOD-WRYF:

Llanrwst:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1829.

Rhys ap Dafydd

BODLEIAN
29 4 01
LIBRARY

## *Cymro diledryw yn erchi anerch at ei anwyl a'i ddirgar frodyr, y Boneddigion, Periglorion, a'r Prydyddion, o'r Genedl Gymry.*

PY bei cyn hawsed, fy urddasawl a'm anwyl wladwyr, ddwyn peth i berffeithrwydd, ag ydyw gan laweroedd feiaw ar y peth a ddarluniwyd yn ddiareb, er lles a llwyddiant, ni fuasai cymaint mor rusaidd, na chynifer mor anllyfasus i gychwyn dechreuad, neu yn hytrach, i amcanu, a bwriadu gwneuthyd y peth, yr hwn nis gadawai anniolchgarwch dynion ei ddwyn i ben. Eithr gan fod hyn yn wybodedig i'r rhai cydwybodus; yn hyfaml i'r dysgedig; ac yn hònaid i'r neb a'i hystyrio yn ddyledus; nas darfu geni nebun iddo ei hun, namyn yn hytrach i'w wlad, i'w fro, i'w genedl, i'w rieni, a'i garedigion (pe rhon a gwrthawd ohonynt ei gelw) mi amcenais yn gyngydaidd, ac a ryfygais yn ehawn (boed anfethlig fyddo yr arfaeth) gyda chènad a nawdd pob hyryw Gymro dysgedig (cyd y gallasai ereill yn well) dòri y rhus, a rhoddi i lawr ddosparthiad ar un o'r saith gelfyddyd, a elwir Rhetoreg, hon sydd un o lawforwynion gwir ddoethineb, hon sydd arglwyddes a rheoledig-ferch ar weithredoedd holl wyr y byd. Ac o daw arnoch ofyn i mi beth yw y ddoethineb fireinwawr hon; bid diau iwch, mai gwybodaeth o Dduw a dyn, drwy gyfrwyddaw yn hydda pob rhyw ansawdd gweithredoedd at eu dyben priodawl. A chan i ni wybod mai y ddoethineb hon yw amcan bwriadus, a meddwl hylawch pob dyn athrawgar anchwith, yn y byd hwn, na esgeuluswn ninnau neb ryw un o'r cyfryngau sydd i'n

harweddu ac i'n tywys ati. Trwy gymhorth anhyludd y gelfyddyd yma, mae doethineb yn ymddangos yn ei glendid; yn dysgleiriaw yn ei hysplennydd oleuni; yn hóni ei difethl fawredd; yn datgan ei nerth anghyfing; ac, fegys ffynnon anmhallnant, yn tywallt nwydau y galon; neu ynte fegys steren yn argan pob dirgelwch, i'n gwneuthyd yn gydnabyddus. Ac am nad oes i wybodaeth dynawl ond dau ran arbenig; sef yn gyntaf gohanred rhwng y naill beth a'r llall, yn nesaf ymadrawdd ffraeth, addurnawl; rhaid iwch wybod, mai o'r gyntaf y tyfodd y gelfyddyd a elwir Amresymeg, ac mai o'r ail y tarddodd ac y blagurodd Ffraethineb. Y gyntaf i addysgu yn hywir, i athrawu yn hyddoeth, i ymresymu yn anhysom; yr ail i amliwiaw ymadrawdd yn ferthus, i amrywioli araeth yn hyfygr, i ddodrefnu ymddyddanion mwynfoes â phob rhyw wychder cymmeredig. Gan hyny, o fedru dosbènu anian pob peth, y gan mwyaf, o fedru terfynu noturiolaeth pethau elfenawl yn adrybeddus, o fedru gohanredu yn ddidolaidd, o fedru dosranu yn gywraint, a barnu yn hyfrawd; y gwybyddir bod dyn yn greadur rhesymawl; o fedru ymddyddan yn areithiawl, siared yn barabl-ddoeth, ymchwedleua yn foddâus, o ddigorni delfrydau yr enaid, o ddiblygu meddyliau y galon ar eiriau gweddawl, hygoel, hyfedr, a hyfryd, yr adnebyddir bod dyn yn greadur cyfeilladwy. Herwydd hyny, er mwyn gallu o ddyn adrawdd yn drefnus ei amcanion, a'i wyllysfryd, i urddo noturiaeth, a orug y gelfyddyd hon, gan roddi i ni athrylith alluawg i fedru gosawd, a synwyr i gymharu geiriau rhwydd, a brawddegau rhagorawl, i gymynu, ac i adeilad y gelfyddyd hon, i'w harfer yn ddirlon, a'i notâu yn angenrhaid er lleswedd cydieithyddion, ac er mawl i Dduw byw. Ar hyny, mal y mae Amresymeg yn rhwyddaw un i ymresymu ac i

wneuthur gwahan rhwng gwirionedd a chelwydd ; nid mewn un gelfyddyd, eithr yn mhob gwybodaeth a chywreinrwydd; yr un sut y mae Ffraethineb yn dysgu ffraethebu, ac areithiaw yn hyawdl, mewn duwineb, meddyginiaeth, cyfreithwriaeth, milwriaeth, ac yn mhob cyttro yn mhlith dynion. Canys pwy a ddichyn ddeall yr ysgrythyr lân, hon yw ymborth yr enaid, heb wybodaeth o'r gelfyddyd yma ? Pwy a fedr ddeall ysgrifenyddion tirionddysg, neu ystoriawyr hydalm, heb gydnabod â throellau ymadrawdd ? Pwy a gymer arno chwiliaw yn llwyddiannus yr Arabiaid a'r Grywiaid physygwyr, heb y ganwyll yma yn gynrithawl o'u blaen ? Pwy un sydd yn deall yr iaith sathredig werinawg (ni'm dawr pa un yn yr holl fyd) heb gymhorth y gelfyddyd hon ? Diau nebun. Nid un iaith sydd yn gnotâu, ac yn benthyciaw echwynborth gan hon; anid pob iaith (mal y dychweinia) sydd yn eiriawl arni am addfwyndeb, rhag trwsgl annhrefn ac anmhorth. Yn Hebraeg fo ddywedir, על יר יאיר, *Hal iad ieor*, gar llaw yr afon. Nid oes law i afon, os dywedwn yn briodawl; ac o achaws hyny troell ymadrawdd yw. Yn Galdaeg, דין קיימי די תיטרזן בן מימרי וביניכון, *Den ceiaimi di titrwn ben memri wbbenechon*, Dyma y cyfammod hwn a gedwch rhwngof fi a chwithau. Nid enwaediad oedd yr ammod, oblegid ammod sydd addewid rhwng dwyblaid, anid arwydd y cyfammod; ac er hyny gwir yw y frawddeg, herwydd troell ymadrawdd. Yn Syraeg, *Hal beth hamaichu*, ar dŷ ei llygaid. Dyna y modd y galwant hwy y talcen, ar droell ymadrawdd. Yn Rywaeg, Νευρα τες ἡγεμονιας τα χρηματα. *Neura tes hagemonias ta chremata*, Arian bath yw giau y dywysogaeth. Nid arian yw giau, eithr troell ymadrawdd yw. Yn Arabaeg, كل لشاني, ويعترف, *Veiahhtarephu cul lishani*, Ac addefed pob tafawd;

sef pob dyn. Yn Lladinaeg, *Pallida mors*, glâs angau. Nid angau sy lâs, eithr y dyn a lâs; ac er hyny mae yn wiriaith synwyr ymadrawdd. Yn Ffrangaeg, *Nul n'est tres-mechant tout a coup, ains par degres, & peu a peu*, Nid ar un dyrnawd (sef ar un waith) y dychwel dyn yn waethaf, eithr mesur ychydig ac ychydig. Yn Italaeg, *Tutte le arme del Venetia no armerion le paura*, Ni ddichyn holl arfau Gwenethia arfogaethu ofn; sef y rhai ofnus. Yn Hispanaeg, *Cuentas, de beato y unas de garanato*, Padreuau gwyr duwiawl a chrafangau cigweiniawl. A'r un ffunyd mewn ieithoedd eraill. Herwydd paham chwi welwch mor angenrhaid yw dysgu a medru y gelfyddyd yma, i ddeall eraill; i adroddi yn ddeallus; ac i ymwrthod â phob ymadrawdd anhyawdl, syml, wrth ymarfer â'r troellau, a'r ffugyrau; y rhai, fal ser, neu fain gwerthfawr, a wnant agwedd pob ymadrawdd yn ddysglaer. Ac oblegid hyny y dywedai Pyr frenin ardderchawg, a milwr gorchestawl, ennill ohono fwy o deyrnasoedd drwy hyodlrwydd a ffraethineb Cineas, nog a ennillasai â'i fyddinoedd ciwdodawl. Yn ddiau, mewn rhyfel ac erlid, nid oes dim mor ddyddanus i'r milwyr a'r ciwdodwyr, â derchafu ymadrawdd i gymell ofn i ddarostwng. Myfi a eglurais bob troell ymadrawdd a ffugyr ar engraffoedd o'r ysgrythur lân, er mwyn cyfeithrin gwir grefydd gristionogawl; ac o'r Prydyddion a'r Beirdd Cymreig, er mawl barddoniaeth awenyddawl. Yr hyn boen a gymmerais ar ddamuniad y pendefig urddasawl, Ioan Salisbury, aer Lleweni, i'r hwn ydd wyt ti, iaith Gymraeg, yn rhwymedig i'w garu a'i fawrâu yn gyfaddas, am ei ofalwch am danat, a'i ddiffuantrwydd tuagatat. I ddiweddu, chwchwi foneddigion, periglorion, uchelwyr, prydyddion, ac ereill, adolwyn ydd wyf, er mwyn coffadwriaeth hynafiaid,

er mwyn pwylledd gwybodaeth, er mwyn mawl eich rhieni, er mwyn ceidwad gwroliaeth, er mwyn braint y Prydeiniaid, er mwyn diorsedd anwybyddiaeth, er gwarth i'r gelynion, ac er mwyn Duw, cannorthwywch iaith y Cymry, trwsiwch, a diwellwch, yn gystal drwy i chwi obrwyaw gwyr dysgedig, i'w chasglu yn llwyr rhag dylaith anialawg; ei chynnal yn lew drwy ofal anhepwedd; a'i harddâu yn foliannus â phob cyfrwyddyd gorfuddiawg; ac hefyd, drwy i chwi, foneddigion, ysgrifenu ynddi y naill at y llall. Canys o ddiffyg hyny yr ydych, ganmwyaf, mor anwybodus ynddi, a hithau mor anhyfedr i chwi, mal nas gellwch ei chlodfori yn iawn, hithau chwaith nemawr o wasanaeth i chwi. Os hyny a wnewch, gobeithiaf y deallwch mor ddir i chwi gyfadnabod â'r llyfryn yma, tuagat gaffael gwir ffraethineb. Hon a'ch dyddana mewn adfyd, a'ch addurna mewn gwynfyd, yn ieuengcdid sy hyfawl, yn henaint sy foddgar, ar drangc sy hyglod, yn rhyfel sy fuddugoliaethus, yn hedd sy lywodraethus, yn y lân eglwys sy nerthawg, yn y llys sydd orfyddawg, yn mhob cyflwr sy fuddiawg yn dwyn lles i laweroedd, heb waethygu na drygu ar nebun. Duw a'ch rhwyddo oll i fod yn Gristianogion diball, yn danlwyddiaid ffyddlawn, yn frodyr anesgor, yn foneddigion hylyw, yn beriglorion hydraeth, yn brydyddion diweniaith, yn Gymry cymreigaidd: a henffych iwch yn y byd yma, ac yn yr uchelnef, llawenydd didrangc a'ch goddiweddo.

Boed felly bo,

Yr eiddoch oll i'w orchymyn yn yr

Arglwydd Dduw,

HEN. PERRI.

## *At yr hygar ddarllenydd.*

Llyma gywirgarn llom-iaith,
Llyma 'r gwir, nid llwm yw'r gwaith;
Buddiawl i bawb ond byddar,
Iaith gywir gu a'th gwir gâr.
Rheidiawl i bob dyn rhodiad,
Gwan a glew yn gweini gwlad.
Rheidiawl i ddallt yr hudau
Ar araith goeth, gynllaith, gau;
Bid gair Duw, bid o gwr doeth,
Bid o yni bod annoeth;
Gan hyny, canwn yna
Fawl i Dduw, o orfoledd dda.
A'r perwawd moler PERRI,
Wraidd naws, a'n eurodd ni,
O drwsiaw 'r iaith, a dreisied,
O'r llwch, a'i thynu ar lled,
Yn gwyraidd ac yn gyrith,
Yn fyw yn ei rhyw a'i rhith. H. SALISBURI.

## *Molawd yr Awdur.*

O gymheniaith deg a'i mynu,
  Y mae tynu ammod doniawg;
A'r hoff weniaith, a bair ffynnu,
  Gwyr ennynu gair iawn enwawg.
    Nid oedd fudion,
    Nac ehudion,
  Beirdd a drudion braidd droiadawg;
    PERRI purwaith,
    Unwedd iawnwaith,
  Euraid araith yw'r dioriawg.

O cymmerwn a'u cymharu,
  Wiria' caru, eiriau caerawg;
Iddo adferwn ddidifaru,
  A darparu draw hap eurawg.
    Am beroriaith,
    A blaenoriaith,
  A rhagoriaith, orau geiriawg;
    Mae'n ffynnadwy,
    Mae'n barchadwy,
  Mae'n daladwy mwyn dyledawg.

O gelfyddyd golau foddion,
  Da yw rhoddion dawn rhieddawg;
Yno nyddid awen noddion
  Ag ansoddion gwiw naws heddawg
    A chanmolwch,
    A rheolwch,
  A dadolwch diwyd elwawg,
    Yn fedrus-wych,
    Yn barchus-wych,
Yn weddus-wych, yn Nudd oesawg.

GWIL. MIDDELTON.

# Rhetoreg.

RHETOREG, neu Areitheg, yw celfyddyd ar gywrain ymddyddan, i ymadroddi yn hyffraeth ac yn hyawdl. Y Groegiaid gynt yn hyfad ac yn ddiafrif (a'i coleddynt, a'i mawrëynt, ac a renynt iddi folawd gweddus, a chanmoliant gwaddolyd) a'i galwent hi *ψυχαγωγον*, sef tywysawg yr enaid; o achaws gallu ymadrawdd cynrywiawl, ac araeth gymhenffraeth, megys gwyraw a phlygu meddylfryd y gwrandawwyr i gyd-dueddu a'u meddwl, ac i wneuthur ar eu hôl.

Mae dwy gaingc yn tyfu o'r gelfyddyd yma, megys rhanau arbénig nodadwy; sef; addurneg a llafaredigaeth.

Addurneg yw trwsiad neu wisgaddurn araeth, mal â llysiau amrith ac amliw, i gynhyrfu, ac ymchwelyd meddyliau, a nwydau y gwrandawwyr.

Mae dau fraich i addurneg; y naill yw troell ymadrawdd, neu drôfeg, arall yw dullwedd ymadrawdd, neu ffugyr.

Troell ymadrawdd, neu drofeg, yw math ar addurneg gynnefin, drwy yr hon y newidir gair o'i arwyddocâad anianawl i ryw arwyddocâad arall.

Prinder geiriau o'r dechreuad ydoedd achaws o'r rhyw hon; oblegyd pan oedd eisieu geiriau i lunweddu naturiaeth a phriodolaethau pethau amryfal, gwyr doethion am hyny a alwasant i'w cof y pethau oeddynt gynhebyg y naill i'r llall, o ran rhyw duedd anianawl; ac a fenthyciasant y naill beth i arwyddocâu peth arall, a oedd mewn rhyw fodd yn debyg iddo; ond wedi hyny ffraethineb a'i dodrefnodd yn ddiandlawd, a chymheniaith a'i mawrygodd yn urddasawl. Canys megys o'r pryd cyntaf y gwnaethbwyd dillad i oluddiaw anwyd a gwres; eithr ar ol hyny y damchweiniodd i laweroedd gael benthyg gwychder gan ddillad gwiw-wisgaid; felly moddedigaeth araeth a ddarluniwyd o'r dechreuad, oblaid achaws prinder ac anamlder geiriau. Eithr yn ol hyny mynych ymarfer a genedlodd fympwy damunawl a mawrfrydus: ac am hyny areithwyr hyodlaidd a wrthodasant y geiriau priodawl, y rhai nid oeddynt, os gad a fydd, na mwynieithus nag hysbysawl, ac a ymarferasant a'r geiriau echwyn, yn gystal o achaws trefnusrwydd a chyffelybwriaeth, ag eglurâad y peth areithadwy; er cyffroi y

meddylfryd ar gydseinio â chyngyd yr areithiwr. Gwelwch gan hyny mor rheidiawl yw deall pa beth yw troell ymadrawdd; hon a ymgynnyrcha parth a'r wyneb ichwi pan adnewyddir neu pan newidir peth ar air mewn araeth tu hwnt i'r arfer gyffredin.

Deuryw drofeg, neu droell ymadrawdd, y sydd:

I. At y rhyw gyntaf y perthyn y rhai hyn a'u rhywogaethau; sef, 1 Trawsenw, 2 Gwatwargerdd.

II. Ar yr ail rhyw y mae hefyd ddwy gangen yn tyfu; sef, 1 Trawsymddwyn, 2 Cyforddwyn.

Pump rhithogaeth a'r drawsenwi y sydd; sef,

I. Trawsenw yr achaws gwneuthuriawl;
II. Trawsenw yr achaws defnyddiawl;
III. Trawsenw yr achosedig;
IV. Trawsenw y sylfon;
V. Trawsenw y ddarymsawdd.

## II. PENNOD.

*Am Drawsenw yr achaws gwneuthuriawl.*

TRAWSENW yr achaws gwneuthuriawl sydd pan osodir ar ymadrawdd sathredig, neu araeth lathrwiw, y caffaeliwr, yr awdwr, y dychymygwr, neu yr weithiawl dros y peth a wnaethant hwy.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Y cledd oddiallan; cowyn a newyn oddimewn. Ezec. 7. 15.

Y *cleddyf* a osodwyd yn yr araeth yma yn lle celanedd, o'r hon y mae yn weithiawl; neu yn offeryn yn llaw y gwneuthuriawl. Wrth gowyn a newyn y deallir angeu, hon yw yr affeth a'r achosedig sydd yn dyfod o'r rhai hyny.

*Hefyd:*

Mi a elwais am sychder ar wyneb y ddaear, ac ar y mynyddoedd. Haggai 1. 11.

Wrth y gair *sychder* y deallir newyn a ddygwydd drwy sychder.

*Hefyd:*

Y neb a gysylltir â'r Arglwydd un ysbryd yw. 1 Cor. 6. 17.

Wrth y gair yma, *ysbryd,* y deallir y llywodraeth a wna ysbryd Duw ar ei ddewisawg, drwy eu harail hwynt

a'r unryw ddawnedigaeth; sef ffydd, gobaith, cariad, a'r ffrwythydd sydd yn tarddu ac yn tyfu onaddynt.

Yr un ffunyd y gellid dywedyd am ryw wr gwymp, dysgedig, a gwyrygaidd, gaffel o hono ef ei ddysgeidiaeth gan *Aristoteles*, ei ffraethineb gan *Tulli*, ei gadbwyll gan *Livi*, ei ddyfnddysg yn *Plato*, a'i dduwineb gan *Foshen*. Gwelwch a gwybyddwch fod yn rhaid deall, wrth henwau y gwyr ardderchawg hyny, sef, *Aristoteles*, *Tulli*, *Livi*, *Plato*, *Moshen*, y llyfrau a ysgrifenasant ac a wnaethant hwy. Herwydd hyny, pan roddir y dychymygwr dros y peth a ddychymygodd ef, *Trawsenw y gwneuthuriawl* fydd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Mewn dwned mîn nid annoeth;
A'm enaid yw y mîn doeth. *Edm. Prys.*

Wrth y gair *Dwned* y deallir llyfr gramadeg a wnaeth Dwnatws. Gwelwch ar y pennill osawd enw yr ysgrifenydd, neu y dychymygwr, dros y peth a ddychymygodd.

*Rhybudd.*

Gochelwch roi pob achaws gwneuthuriawl am ei achosedig. Canys oni bydd mewn arfer enyfedus, ac yn gymhwys i arwyddocâu yr achosedig, coeg ddynwared a fydd; gan nad ystyrir ac na lwydda pob gwneuthuriawl yn lle ei achosedig; mwy no chlêr y dom pan geisiont ddynwared neu ddylyn â rhyw athrawiaeth y pencerddiaid, ar eu cerdd hwy. Ac am hyny ymogelwch a byddwch ddiesgeulus, rhag bod annhrefn ac anurddas ar y geiriau ymadroddus, rhag dygwydd twyll ymadrawdd ynddynt.

## III. PENNOD.

*Am Drawsenwad y defnyddiawl.*

TRAWSENW yr achaws defnyddiawl sydd, pan roddir, neu pan gynnwysir ar ymadrawdd, neu araeth, y defnydd dros y peth a wnaethbwyd o'r defnydd; neu pan ddeallom y peth defnyddiedig wrth y defnydd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Mal hyn y mae yn ysgrifenedig: Melltigedig pob un sy yn nghrog ar bren. Gal. 3. 14.

Wrth y gair yma, *pren*, y deallir y grwys y croeshoelwyd Crist arni. Canys pren oedd ei defnydd. Gwelwch ynte roi y defnydd dros y defnyddedig.

*Arall.*

Hwy a fwytant y gwenith tecaf, ac a yfant y grawn melysaf. Deut. 32. 14.

Wrth y gair *gwenith* yr arwyddoceir y bara a wneir o'r gwenith; ac wrth y *grawn* y deallir y gwîn a wesgir o'r bagad grawn. Gwelwch gan hyny roi y defnydd yn lle y peth a achosiwyd o'r defnydd; sef bara a gwîn.

*Arall.*

Bwriodd pob un ei ffòn i'r llawr; ac fo ddarfu eu troi hwynt yn nadrodd: eithr ffòn Aaron a lyncodd eu ffyn hwynt. Exod. 7. 12.

Wrth y gair *ffon* y deallir y neidr, hon a wnaethbwyd drwy wyrth Duw o'r ffòn megys defnydd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Un dwrf yn dy arfau wyd;
Un llid â hên-llew ydwyd.
Curaw yn eu brîg haiarn brâs,
Yn mhob twymniad mab Tomas. *L. Môn i T. Salbri.*

Wrth y gair *haiarn* y deallir yr arfau a wnaethbwyd o'r haiarn. Syna y defnydd yn lle y defnyddiedig.

*Arall.*

Ni throit ddur eithr at ddewrion,
Nith dwytsia ŵr, nath dad Sion. *Tudyr Aled.*

Y gair *dur* sydd yn arwyddocau arfau, y rhai hyn a wnaethbwyd o ddur: hwn oedd y defnydd.

*Arall.*

Er clybod darbod â dur
Newid hoedl Owain Tudur.

*Arall.*

Yw'n olwyn a ennylir;
A thynu'n hwn aethnen hir.

Wele yma roi yr *yw* dros y bwa a wnaethbwyd o'r yw; a'r gair *aethnen* dros y saeth a wnaethbwyd o'r rhyw bren hyny.

*Arall.*

Aeth pob swydd a chyfrwyddyd
Wrth obr a gwerth obry i gyd;
Wrth hên aur yr aeth y naill,
Wrth arian yr aeth ereill. *Ioan Tudyr.*

Wrth y geiriau *aur* ac *arian* y deallir aur bâth, ac arian bâth. Wele y defnydd dros y peth ffyrfedig.

*Arall*:

Gwr o anerch a gryna;
Goreu tyf gwr o waed da. *G. Glyn.*

## IV. PENNOD.

### *Am Drawsenw yr achosedig*,

TRAWSENW yr achosedig sydd, pan arwyddoceir yr achaws gwneuthuriawl wrth yr achosedig; neu pan sengir y gweithrededig,. sef y peth achosiawg, yn lle y gwneuthuriawl.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Ef a dyngodd Iaco i ofn ei dad Isaac. Gen. 31. 53.

Wrth y gair yma, *ofn*, mae i ni ddeall y gwir Dduw, hwn drwy yru braw ar Isaac, a'i goluddiodd megys â ffrwyn, neu luddawydd; fal na ddadebai y fendith a roesai i Iaco. Wele, y gair *ofn*, hwn oedd yr achosedig a weithredasai Duw yn Iaco, sy osodedig dros Dduw y gwneuthuriawl.

*Arall.*

Duw oedd y gair. Ioan 1. 1.

Crist a elwir y *gair*, o achaws mai ef yn mhob rhyw a eglurodd i'r eglwys ddirfodd Duw yn ein prynwriaeth. Cyd gellid dywedyd yn hysain â'r wir-ffydd, mai ef yw y gair, doethineb y Tad, cenedledig o'r Tad. Canys hyny, y peth a frydfeddyliodd deall Duw o dragwyddoldeb, hwnw a alwn yn y Duw tragwyddawl y gair; hwn yw perffaith eilun y deall.

*Arall.*

Myfi yw yr adgyfodiad. Ioan 11. 25.

Y gair *adgyfodiad* ydyw yr achosedig; oblegid Crist sydd yn cyfodi pawb o'r eiddo, yn gystal o farwolaeth ysbrydawl ag o ddylaith corfforawl. Pan yw Crist gan hyny yn ei alw ei hun ar enw ei weithred, megys y gwelwch yma, Trawsenw yr achosedig yw.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Pa dwrw sy'n cwympio dewrion?
Pa larwm oer? p'le 'r â Môn?

Pa floeddio? pwyf a leddynt?
Pa ryw gwyn fal Priaf gynt?
Pa waedd irad? pa dderyw?
Pa lif Noe? pa lefain yw?
*D. Alaw, i S. Rowland Felifel farchawg.*

Pan yw y prydydd yn dywedyd *larwm* oer, nid ydoedd yn meddwl fod diasbad lais larwm yn oer ohoni ei hun; eithr gyru ar ddeall y mae, mai y larwm oedd yn peri oerni yn nghalonau y werin. Wele wrth hyny osawd yr achosedig yn lle y gwneuthuriawl; mal y clywsoch yn mlaen.

*Arall.*

Meddwl drachefn, boen drefn draw,
Brudd adwyth, mai breuddwydiaw.

Nid yr adwyth oedd brudd; eithr adwyth oedd yn peri prudd-der yn y galon.

*Arall.*

Mae'n torchawg mewn tywarchen,
Mewn arch mae ein parch a'n pen.
*Ioan Tudyr i T. Mostyn.*

Wrth y gair *parch* y deallir y neb oedd yn peri parch. Wele yr achosedig dros ei wneuthuriawl.

*Arall.*

Aeth ein maeth o waith Ion mawr,
Hyd ar waelawd yr elawr.

Wrth y gair *maeth* y mae i chwi ddeall y neb oedd yn peri maeth. Mynych iawn yr arferir y droell hon yn ganmoladwy, oblegid ei bod yn nerthâu yr araeth yn rymus.

## V. PENNOD.

### *Am Drawsenwad Sylfon.*

TRAWSENW y sylfon cadarn sydd, pan roddir ar ymadrawdd, neu araeth glodebus, enw priawd rhyw beth sylweddawl, neu fonsangus, i arwyddocâu rhyw beth darymsoddawl; neu pan roir y sylfon dros y ddarymsawdd.

Mae y drofeg yma ddwy ffordd, neu achwaneg, yn arferedig; sef yn gyntaf pan osodir ar ymadrawdd areithiawl y lle, neu y fangre, a fo yn cynnwysaw, ac yn gorymddwyn rhyw beth dros y peth sy gynnwysedig ynddo.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân;*

Rhyngodd bodd i Facedonia, ac Achaia, wneuthyd rhyw gymhorth i'r saint tylodion, y rhai ynt yn Nghaersalem. Rhuf. 15. 26.

Mae yr apostol yma wedi dodi henwau dwy o wledydd, sef, Macedonia, ac Achaia, y rhai ydynt y sylfon, yn cynnwys gwladwriaid ynddynt, yn lle, neu dros y bobl a'r werin o'r gwledydd hyny, rhai hyn oeddynt yn preswyl ac yn gwladychu yno.

*Arall.*

Yr wyf fi yn galw nef a daear yn dystion. Deut. 30. 19.

Mae yr Yspryd Glân, drwy enau Moshen, wrth y geiriau hyn, *nef* a *daear*, yn arwyddocâu y creaduriaid sydd yn y nef ac ar y ddaear.

*Arall.*

Hwn yw fy nghorph i. 1 Cor. 2. 24.

Pan yw ein Harglwydd ni, a'n Hachubwr Iesu Grist, yn dywedyd, Hwn yw fy nghorph i, mae yn rhaid i ni ddeall mai araeth *drosenwawl* yw. Canys y mae ef yn rhoi y gair *corph*, hwn yw y sylfon, yn yr araeth sacrafenawl, i ddeall mai y bara sy arwydd ac arwystl o'i wir gorph bendigaid. A diau mai geirwir yw y rheoledigaeth hon; sef, *O bydd prïawd arwyddocâad y geiriau yn yr Ysgrythyr Lân yn anghydwedd ai â gofyddeb y ffydd, ynte a'r manau eglur o'r Ysgrythyr Lân; yno rhaid yw ceisiaw synwyr a deall arall, yn ol ansoddion y geiriau, neu naturiaeth y peth.* Am hyny, gan na chydwedda â manau eraill o'r Ysgrythyr Lân droi y bara yn wir gorph Crist, Trawsenw y Sylfon dros yr arwydd yw.

*Arall.*

Cynnifer gwaith ag y bwytäoch y bara hwn, ac yr yfoch y ffiol hon, y dangoswch angau yr Arglwydd hyd na ddelo. 1 Cor. 11. 26.

Yma y mae yr Apostol yn gosawd y gair *ffiol*, hon yw y cynnwysawl, dros y gwin, y sydd sacrafen o waed ein Harglwydd Iesu Grist.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Lleweni hael, llawn yw hon,
Lle hiliwyd llu o haelion;
Llwyn erioed yn llawn o ras,
Llonaid teml yw llîn Tomas.

*G. Glyn i'r hen Dom. Salbri.*

*Arall.*

Lleweni deg, llyna dŵr
Can-câr, a lle concwerwr;
Lle nefawl llawen ifainc,
Lle a gaiff rym Lloegr a Ffrainc.
*Ed. Ll. o Lan Ynys i S. Io. Salbri farchawg.*

Y gair *Lleweni* ydyw y sylfon, ac a osodwyd yn lle y ddarymsawdd, sef ei pherchenawg. Yn unrhyw fodd y dywedir, *Moes imi lathen, tithau a gei bot;* Gan feddwl mynu llathaid dros botiaid.

II.

Ail rhith Trawsenw y Sylfon sydd, pan osodir y fangre dros y weithred, a wnelir yn y fangre.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Er mwyn dy deml, y sydd yn Nghaersalem, dwg breninoedd anrhegion i ti. Psalm 68. 30.

Wrth y gair yma, *teml,* hwn yw y sylfon, y deallir yn arwyddocâus y gweithredoedd duwiawl, a'r gwasanaeth cyfrithawl, oedd deilwng ac addas o'u gwneuthur y pryd hyny y mewn y *deml.*

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Yr eglwys a gasânt, y dafarn a gyrchant;
Lladron ac oedion a gydsyniant. *Taliesin.*

III.

Y drydedd rithogaeth ar Drawsenw y Sylfon cadarn sydd, pan roir mewn ymadrawdd y meddwr, neu y meddiannwr, dros y peth sydd yn ei feddiant ac ar ei elw.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Mi anfonaf dân i Iehwda, hwn a ystraul lysoedd Caersalem. Amos 2. 5.

Wrth y gair *Iehwda,* hwn ydoedd fab Iago, ac hefyd yn ei amser ydoedd y perchenawg, yr arwyddocêir y wlad, hon oedd eiddo ei hiliogaeth.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Trewaist barc trinwyllt trwst berw t'ranau,
Trwy Newarc wedi, trwy naw o'r cadau;
Trwy faner y Baedd, terfynwr beddau;
Trwy Gernyw ydd yn' trwy garneddau;
Trwy Ddyfnaint llifnaint a'ch llafnau dirwd,
Tân a dur yn frwd, dyna daro'n frau.
*T. Aled, i'r marchawg S. Rhys ab Tomas.*

Yn y geiriau uchod y mae y prydydd wedi gosawd y penaeth meddiannawl dros yr holl fyddin filwrawg: sef y penciwdawd a'r llugad.

*Arall.*

Digel pan lâs Llywelyn,
Dewis gŵr oedd d'wysawg yn.

Yn y pennill yma fo gymmerodd y prydydd y tywysawg, neu y penllu, dros y rhai hyny oeddynt dano. Ac o achaws hyny *Llywelyn* yw y sylfon, hwn oedd feddiannwr y llu. Herwydd paham y peth a ddygwyddodd i'r holl giwdawd a gynnelir ac a gynnwysir yn enw y tywysawglu.

## VI. PENNOD.

### *Am Drawsenwad Darymsawdd.*

TRAWSENW y ddarymsawdd sydd, pan arwyddocêir ar ymadrawdd y sylfon cadarn; neu pan gyfleuir y ddarymsawdd dros y sylfon fonsangus.

Mynych iawn yr ymarferir a'r drofeg yma; a hyny hagen yn arwyddocâus; mal—

I.

Yn gyntaf pan gysodir mewn araeth, neu ymadrawdd, enwau y rhinweddau a'r campau canmoladwy, ynt ar ryw rai, dros y dynsoddion sydd yn berchenogion onaddynt.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Iesu Grist a wnaethwyd i ni yn ddoethineb, a chyfiawnder, a santeiddrwydd, a phrynedigaeth. 1 Cor. 1. 31.

Wrth y geiriau, *doethineb, cyfiawnder, santeiddrwydd,* a *phrynedigaeth,* y rhai hyn ydynt ddarymsoddion, a chynnaliedig yn eu sylfon, y deallir ddarfod i Dduw Tad osawd Crist yn ddoeth athraw i ni, yn gyfiawn ddiwygydd, yn santaidd gyfryngwr, ac yn drugarawg brynwr, ar yr un y mae gwir ddoethineb yn gobenyddu.

*Arall.*

Cyfiawnder a edrychodd i lawr o'r nefoedd. Ps. 85. 2.

Y gair *cyfiawnder* hwn yw y ddarymsawdd a osodwyd gan yr Ysbryd Glân yn lle Duw, y sylfon cadarn, yn yr hwn y mae cyfiawnder yn trigfanu.

Syna yn ddirfing, a gwybydd rhag cyfeiliorni beth yw y ddarymsawdd.

I.

Yn gyntaf pob rhyw beth y gellir dywedyd am dano ei fod mewn peth arall, sy o duddrych hyny yn ddarymsawdd.

Mal pan ddywedir, bod gwybodaeth yn yr enaid: Gwybodaeth yw y ddarymsawdd; a'r enaid yw y sylfon cadarn.

Yr un modd pan ddywedir, bod pysgod yn y môr; yr allwedd yn y clo; dwr yn y crochan; tafawd yn y pen; lliw yn y corff; glendid yn y gŵr: Y pysgod o duddrych y môr sy ddarymsawdd. O achaws fo ellir dywedyd eu bod hwynt yn neu mewn y môr, a'r môr yn eu hamddwyn hwynt.

II.

Pob rhyw beth ar y sydd yn darlynu, ac yn gobwysaw, neu yn perthyn at beth arall, darymsawdd yw o duddrych y peth hyny. Mal y mae golud, clod, gair mawr, anair, tylodi, gwisgoedd, o duddrych dyn yn ddarymsoddion.

III.

Pob rhyw beth y gellir dywedyd fod peth arall ynddo, o duddrych hwnw sydd sylfon.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Dwyn dadl gyda dyn didwyll;
Dal y ty a dilëu twyll. *G. Glyn, i S. Sh. Bwrgh.*

Y gair *twyll* yn y pennill hwn yw y ddarymsawdd; ac a osodwyd yma yn lle y sylfon cadarn, sef, i arwyddocâu y *dyn twyllodrus.*

*Arall.*

Un dyn â gwaew 'n dân i gyd,
Ai drwy gaer o dri gwryd. *T. Aled.*

Y gair *tân* hwn yw y ddarymsawdd, o achaws gallu dywedyd ei fod, malpai, yn y gwaew, a ddodwyd dros ei sylfon cadarn, sef y gwaew tanllyd.

II.

Yn ail pan ddyroir enwau beiau sarâdlawn, a gwydau anhyfad, dros yr hanfod, neu yr ansawd y bont ynddynt.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Digofaint Duw a ddaw ar blant anhydynder. Col. 3. 6.

Wele roi y ddarymsawdd *anhydynder* dros y sylfon cadarn; sef, y *dyn anhydyn*, neu wrthnesig.

*Arall.*

Ac mi a ganfum anifel gwyllt yn codi o'r môr, a saith

ben gantho, a deg corn; ac ar ei gyrn ef ddeg coron; ac ar ei bènau ef enw cabledigrwydd. Dat. 13. 1.

Yr Ysbryd Glân, drwy enau Ioan, a sangodd y gair *cabledigrwydd* dros y sylfon cadarn, sef *cabledig*.

Mal hyn y gellir dywedyd am y Pab Alissander y chweched, hwn oedd Hispanwr o enedigaeth, ei fod ef, yn ysgelerdawd i'r Gristionogaeth, yn gybydddra chwantlyd, yn ddiawleiddrwydd, (canys fo wnaeth gynghrair a'r cythraul, er mwyn ennill y bendefigaeth lenach:) yn falchder anoddefadwy, yn deml herwriaeth annuwiawl, ac yn drawslywodraeth gormesawl y breninoedd a oeddent o'i amgylch: mal y tystia Panvinus ac Hieronimus Marius.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Gyraist pan beehaist buchedd cerdd ladrad,
  O'r llinad er y llynedd;
Ond oedd well, annedwydd wedd,
  Yru halen o'r heledd? *T. Aled, i Forys Brydydd.*

Y gair *lladrad* yw y ddarymsawdd, ac a osodwyd yma dros ei sylfon cadarn, sef *cerdd ladradaidd.*

*Arall.*

Gwnawn dda ac yn ddiwg;
Na wnawn druth neu wenwyn drwg. *D. Nanmor.*

Y gair *gwenwyn* sydd yn arwyddocâu ei sylwedd cadarn, sef *gwenwynllyd.*

*Arall.*

Ac un wawd ffraeth a wnaethost,
G'wilydd i ti, gelwydd tost.
Pei gwelid ti, cringi crôg,
Brint dy wyneb brwnt tònog,
Yno gwyddyd, cerbyd câs,
Gau dy weflau, gyw diflas. *Edm. Prys.*

*Cywilydd* dros *gywilyddus,* yr henw cadarn yn lle yr henw gwan: ac yn ddiau clodfawr fydd yr araeth pan fo gair cuddrym yn guddiedig, yn arwyddocâu peth gwiw i'w nodi, wrth roi yr henw cadarn yn lle yr henw gwan; mal hyn:

A throi oesoedd, â thraserch,
Y meirw i fyw y mae'r ferch;
Fal maeth meddyginiaeth gain,
Eilfyw i'm geilw dyn aelfain.

*Arall.*

Saer dy fawl, sòriad wyf fi.

*Sòriad* dros *sòredig.*

III.

Yn drydydd, pan fo i ni roi ar ymadrawdd yr arwydd dros y peth y bo yn ei arwyddaw.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Ni phalla yn llwyr deyrnwialen o Iehwda. Gen. 49. 10.

Y gair *teyrnwialen*, sy arwydd teyrnogaeth, sy yn dwyn ar ddeall yn hyddysg, ac yn gyfrwydd, y freninawl awdurdawd oedd ar barâu oddimewn llwyth Iehwda, oni ddelai y *Messiach;* sef Crist Enneiniawg y Tad.

*Arall.*

Essafied, neu holed Duw fi yn nghlorian cyfiawnder. Iob 31. 6.

Yn y geirau hyn y gosododd Iob y gair *clorian*, hwn ydyw yr arwydd, yn lle cyfiawnder, yr hon a arwyddocêir wrthynt hwy.

*Arall.*

Nid yw ef yn dwyn y cledd yn ofer. Rhuf. 13. 4.

Y *cledd* yw yr arwydd; a'r swyddogaeth yw y peth a arwyddocêir wrtho.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Llew abl oedd yn lle Bleddyd;
Llwyr ben i holl wyr y byd.
Llîn iarll uwch Caerlleon aeth,
Llaw wydr, a'r holl lywodraeth.
Llew a rydd llu ar ei ol,
Llwyn aur Lleweni wrol.

*Io. Brwynog, i S. Ioan Salbri farchawg.*

Y gair *llew* a osododd y prydydd yn lle y gŵr, oedd yn rhoi llun y llew yn ei arfau.

*Arall.*

Os un lloer sy'n lle arall,
Diwedd lloer ydoedd y llall.

Y gair *lloer* yw yr arwydd darymsoddawl, a osodwyd yn lle y gŵr a'i rhoai yn ei arfau; ac o ran hyny o duddrych ystyriawl oedd y sylfon cadarn.

IV.

Yn bedwerydd, pan ddyroir ar ymadrawdd areithiawl, neu brydyddawl, y weithiawl, neu y gyphyr dros y llywodraethawl, neu y gwneuthuriawl, trawsenw y ddarymsawdd fydd. Can nad yw cyphyriau o duddrych y gwneuthuriawl yn y weithred, neu yr arweinydd, ond darymsawdd arluniawg.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn;*

Megys y gwnaeth dy gleddau di wragedd yn ddietifeddus; felly y bydd dy fam dithau am danat ti. 2 Sam. 15. 33.

Yma y mae Samuel yn gosawd y gair *cledd* dros *Agag* ei arweinydd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

A'th wayw rhydd, Dafydd,
Hyd Iâl,
A'th isarn wrth osod
Dàl yn nhàl,
Peraist di, yn mhob rhyw stal,
I fyd ofni, fal Dyfnwal. *D. Nanmor.*

Yma mae y prydydd yn darblygu y peth a wnai y gwr; ac yn dargynnwysaw ofn y galon at yr arf, y ddarymsawdd, i arwyddocâu y gwr, oedd yn gyru ofn arnynt.

V.

Yn bummed, pan osodir mewn ymadrawdd ddarymsawdd amser, yn lle ei sylfon cadarn.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Amdanafi lleiaf dim cenyf, bod i'm barnu genych, neu gan ddydd dyn. 1 Cor. 3. 3.

Wrth y gair yma, *dydd*, yr arwyddoceir yn hyrwydd iawn y farn, oedd arferedig drwy gyfraith ei rhoi ar ddyddiau oeddent wedi eu trefnu, a'u cyfreithiaw i hyny o arfaeth.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

O bu drîn ar y mab draw,
A blynyddoedd blin iddaw;
Ei gynnydd, a'i ddîgoniant,
A dyf fal Siob dwyfol sant. *G. Glyn.*

Y gair *blynyddoedd* a osododd y prydydd yn lle y gwyr o'r blynyddoedd hyny. Ac herwydd hyny, blynyddoedd yw darymsawdd amser; a'r werin oedd mewn lludded, neu y gwyr mewn afrifed yn y blynyddoedd hyny, yw y sylfon cadarn.

Yn ôl y ddull yma hefyd y dywedir, *dyma amser caeth; wele ddyddiau helbulus; syna amser neu wanwyn rhyfelawg;* a'r cyfryw; Yr helbul sy ar y bobl, ac nid ar y dyddiau.

*Rhybudd.*

Ni ellir gosawd ar ymadrawdd pob sylfon cadarn yn lle y ddarymsawdd: neu ynte bod bath ar ddarym-

sawdd dros ei sylfon; anyd yr un a fo cyfaddas, ac arferawl yn mhlith ysgrifenyddion hyddoeth, neu feirdd graddawl, awenlyd.

## VII. PENNOD.

*Am Watwargerdd a'i rhithoedd.*

Ail rhithogaeth y rhyw cyntaf ar droell ymadrawdd yw Gwatwargerdd, a'i rhithoedd.

Gwatwargerdd, neu wawdeb, sydd rith ar drofeg ymadrawdd, pan osodir mewn araeth eiriau, neu synwyr, yn arwyddocâu gwrthwyneb i'r ymadrawdd; neu pan fo y naill wrthwyneb yn arwyddaw y gwrthwyneb arall.

Yr ydys yn ymarfer â hon yn fynych; weithiau wrth gellwair, ac weithiau eraill wrth ddywedyd y caswir. Fo adnebyddir y droell hon wrth anghyttuedd anian y peth; neu wrth y llafaredigaeth; neu yn hytrach wrth ymddygiad y dynsawd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lan fal hyn:*

Wele y dyn yn debyg i un o honom ni. Gen. 3. 22.

Yn y geiriau yma y mae Duw, drwy wawdeb dduwiawl, yn adliwiaw i ddyn ei resyndawd, a'r trueni a ddug pechawd iddo. Cyn i Adda syrthiaw yr ydoedd ar ddelw Duw; sef cyfiawnder, a santeiddrwydd; onid, wedi iddo droseddu y gorchymyn, e gollasai, gan mwyaf, y ddelw nefawl, yr hon y crëawyd ef ynddi.

*Arall.*

Cysgwch bellach a gorphwyswch. Matth. 26. 45.

Dyma wawdeb i ddwyn ar ddeall i'r disgyblion ddarfod iddo (sef Crist) yn ofer beri iddynt wiliaw: ac o hyny allan, pei ceisient gysgu a gorphwys, nis caent gan y gelynion.

*Arall.*

Ewch a gelwch ar y duwiau a ddewisasoch: gwaredent hwy chwi yn amser eich cyfyngdra. Bar. 10. 14.

Wrth y geiriau hyn y mae Duw yn ceryddu delwaddoliaeth yr Iuddeon yn wawdus, er mwyn iddynt hwy ddeall mor ffiaidd oedd gantho eu camwedd, a pheidiaw rhag llaw: ac o'r achaws hyny y syganai ef ar watwargerdd wrthynt.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Byw dlws fab â dilaes fîn:
Tlysach no'i frawd Taliesin.
Oes dwy wefus drefnusach?
Tirion o beth yw'r trwyn bach;
A'r dannedd cyfanneddol
Ynt yn iawn heb ddaint yn ol. *Edm. Prys.*

*Arall.*

Ys da fab! Och fi, da!

Y geriau yma sy yn arwyddocâu bugeilres, neu watwaredigaeth. Gweithiaw nid yn llawn llythyr ar eiriau; onid ar acen y synwyr, neu agwedd y dyn a'u dyweto, neu y dyweder wrtho. Ac erwydd hyny fo a wasaneutha y droell hon i geryddu yn guddlym, ac i gellwair yn ddigrif, â geiriau gwrthwynebus.

*Rhybudd.*

Gorwiliwch rhag arferu y droell hon heb achaws disymwth, neu gellwair mewn anamser. Yn nesaf, nid gweddus i ddyn iselradd ymarfer o honi wrth swyddog uchelradd, neu â'i well; canys anfoesawl fyddai ei ymadrawdd, a diwybod da yn ngwydd pawb, ac yn marn pawb oll.

---

## VIII. PENNOD.

*Am Grybwylleb.*

RHITH arall ar watwargerdd y sydd, pan fo i ni mewn ymadrawdd gymmeryd arnom ollwng heibio ryw beth, a allesid ei grybwyll; ac er hyny dangaws digon o ddammeg yn ei gylch; neu yn hytrach dywedyd y cwbl amdano.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn.*

Myfi Pawl a ysgrifenodd hyn â'm llaw fy hun. Mi a dalaf y pwyth: cyd na ddywedaf i ti, yr wyd yn fy nyled amdanad dy hun. Philemon.

Yn ol y ddull yma y syganai un yn y modd yma: Ni ddywedaf fi roi o Sylvester yr ail ei enaid i ddiawl i gael y bendawd iddo ei hun. Ni yngenaf fi wenwynaw o Hilbrant chwech o baboedd, i ennill y babogaeth. Benno. Ni soniaf fi ddarfod i Stephan bâb a Sergius ddadgladdu corph Formosus, a thòri ei ben, a'i fysedd, a'i fwrw i afon Tibris. Ië, ni ledebaf mai hwn a fwriodd y sacrafen i'r tân.

## IX. PENNOD.

### *Am Farw-wawd.*

RHITH arall ar watwargerdd y sydd, pan fo y gelyn yn gwawdebu yn drahâus, yn ol gorfodaeth; ac hi a elwir marw-wawd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Tydi hwn wyt yn distrywiaw y deml, ac yn ei hadeiladu hi drachefn mewn tridiau, achub dy hun: a disgyn i lawr oddiar y groes. Matth. 27. 40.

Yn y geiriau hein y mae y gelynion mor drahâus yn pwysaw ar yr Iesu, gan dybied o honynt ddarfod amdano, ac nas gallai fyth ymachub o'r farwolaeth ddifenwawl a roesent iddo. Ac herwydd hyny y geilw y Grywiaid y droell hon yn eu hiaith hwynt *Sarcasmos*, am na arferir ddim o honi nes damwain o ddyn yn gelain, neu yn mron hyny, o'r Gryw-air *Sarx*, sef cnawd heb enaid ynddo. Yn ol buddygoliaeth arfer y penciwdawd yw, ar araeth, wrth weled y celaneddion, ymadrawdd yn wawdus, malpai, wrth rai byw, ac hwynt yn feirw.

Yr engraff yma a ddygais i o'r Ysgrythyr Lân i ddangaws ffurf y drofeg hon, ac nid i gadarnâu y camarfer.

---

## X. PENNOD.

### *Am Ffroenwawd.*

RHITH arall ar watwaredigaeth y sydd, pan fo un nid yn unig yn cellwair yn ddu, ac yn rhoi gair sur; eithr hefyd yn dangaws hyny yn drwyngrych mewn atgaswedd trahêuslyd.

*Engraff.*

Gofyn o ryw un moel a orug yn drahâus i *Ddiogenes* ryw beth; nid oedd ef foddlawn i'r ateb a gawsai, anid ymgeingiaw ag ef a wnaeth. Yno *Diogenes*, yn ol ychydigyn o hamdden, a attebawdd i'r moelddyn fal hyn: Y câr, bydd foddlon; ni wnaethum ddirgam â thi; anyd hyn a ddywedaf wrthyd; yr wyf yn canmawl y blew a syrthiodd oddiar dy ben; canys i'm tyb, synwyrawl oeddent, gan brysuraw o honynt i ymwrthawd â chyfeillach penglog can ynfyted.

*Arall.*

Rhys Goch o Eryri wrth fachgen, a ofynai iddo (gan weled llawer o gyllyll a'r gyllyll-lug oedd gantho) ai gogrydd ydoedd? a syganai ac a attebai, Ie, myn Bagl Gadfan; a mi glywais fod cant gan dy fam di.

Achaws hydda i arfer y ddull yma ydyw, coddi balchder, ynfydrwydd, neu ynte wyd; ac nid anghyffelyb i ddurew a ymeifl yn y trwyn cyn i ddyn ei ganfod â'i lygaid. Ond rhaid ymochelyd rhag bod y ddull hon yn dywyll, neu yn drwsgl, ddybryd, yno afrifed fydd.

---

## XI. PENNOD.

*Am Anhagreb.*

Rhith arall ar watwargerdd y sydd, yn llarieiddiaw ac fegys yn tynu ymaith y câs a'r dig o'r ymadrawdd â geiriau boddâus; ac a ellir ei galw têg dros hagr; neu foes dros anfoes; achaws ei bod yn adroddi geiriau tyner, esmwyth, am eiriau hagr, annhyner, anhyfwyn.

*Engraff.*

Mal hyn y mae araeth rhai wrth glywed y cyfryw ddywedyd—*Nawdd Duw rhag diawl.*

Y mae *Selyf Ddoeth* hefyd yn canmawl yr ateb a dola fâr a digofaint. Diar. 15. 1.

Mal y gwnaeth un a ddaliwyd ac a dducbwyd gar bron *Alessander Mawr*, brenin Macedonia, am ei gablu: gofyn o'r brenin iddo a orug, pam y gwneuthysai ef a'i gyfeillion hyny o sarâad? Yntau a attebodd, Oni bai ddarfod y gwin, nyni a ddywedesym lawer gwaeth. Wrth hyn yn dwyn ar ddeall, na ddaethai y gabl o'r galon, neu atgasrwydd; eithr o'r gwîn: yr hwn atteb pan glybu y brenin maddeu iddynt a orug yn ewyllysgar.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Diachaws oedd y dychan;
Er hyn o lîd mae rhai 'n lân.
Rhyfedd, medd llyfr a'n rhifai,
O bu fyw neb heb ei fai. *D. Trefor, Lên.*

*Rhybudd.*

Dau beth sydd i'w gochelyd yn y ddull hon: yn gyntaf, rhag bod yn rhy dolfryd, neu ymroi yn rhy wael; yn ail, rhag gweniaith cyhoeddus. Y naill sy gywilydd; y llall sy bechawd.

## XII. PENNOD.

### *Am Drawsymddwyn.*

Y gangen gyntaf o ail rhyw troell ymadrawdd a elwir Trawsymddwyn.

Trawsymddwyn sydd, pan arwyddocêir y cyffelyb wrth y cyffelyb; neu ynte pan newidier gair o'i arwyddocâad prïawd i anmhrïawd; hagen, i gymydogawl, a gwiw gynhebygawl. Ar fyreb, nid yw y droell hon onid cyffelybrwydd wedi ei chornu mewn un gair.

Deubeth a achosiawdd y droell hon ar ymadrawdd; nid amgen, yn gyntaf, y gofaeg; yn nesaf, barnedigaeth cyfaddas. Y gofaeg sydd yn cynnyrchu y rhan gyntaf o'r gymhariaeth; ac yno iawn farn sydd yn argymwysaw yr ail rhan. Oblegid cyd gallu o ddyn gofiaw yn dda y peth a welawdd, etwa oni bydd ynddo farn ynadawl, ni feidr gymharu yn gymhwys, na gwneuthyd cyffelybrwydd rhwng peth amryfeilus. Ac am hyny y gofaeg berffaith, a gwiwddwys farnedigaeth ynt achosion arbenig o'r drofaeg hon yma, a elwir Trawsymddwyn.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Dy air di (medd Dafydd Brophwyd) sy lugern i'm traed, a llewyrch i'm camrau. Psalm 119. 105.

Mewn prïawd araeth nid yw gair Duw na llugern, na llewyrch, ond wrth gyffelybrwydd fal hyn: sef, fegys y mae y llugern yn dwyn goleuad, a llewyrch yn goleuaw y ffordd; felly y mae gwirbur air Duw megys yn goleuaw ein rhwydd ffordd parth a'r lanfa nefawl sydd yn y goruchelder.

*Arall.*

Myfi a blènais, Apollo a ddwfrâodd. 1 Cor. 3. 6.

Wrth blànu y deallir gosawd gosail, neu ddechreuad cristionogaeth ymhlith dynion diffydd. Ac wrth ddwfrâu, y deallir drwy gyffelybiaeth hyddysgu a chadarnâu, o ddydd pwygilydd, y gynnulleidfa yn eu plith, er cynnyddu o honynt mwy o wybodaeth.

*Arall.*

Yn ol y ddull hon y dywedwn am y byd; sef, ei fod yn feddle i'r meirw; yn garchar i'r byw; yn weithdŷ gwydoedd; yn benyd i'r rhai rhinweddawl; yn gollgof y pethau aethant heibio; yn elyn i'r cynnyrchiawl; distrywiwr pob mawr beth; cynhyrfwr pob peth gwael;

preswylfa pererinion; marchnadfa'r chwildröas, ac yn ysfa pob peth llygradwy.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Aerwy sêr o rôs euraid
Yw hwn o'r Dyttwn ei daid;
A lluoedd swydd Gaerlleon,
I'n cyn ydoedd Iancyn Don.
*D. ab Edmwnd, i'r hên T. Salbri.*

Y geiriau *aerwy* a'r *cyn* ynt drawsymddwyn, yn pwysaw ar gyffelyb.

*Arall.*

Un llaw gref o fewn Lloegr oedd,
A ffrwyn cedeirn Ffrainc ydoedd.
O bu'r Iarll obry a'i wyr
Yn taraw ymysg anturwyr,
Nid ymroes, ail i Foesen,
I ddyn byw, ond i Dduw'n ben.
*W. Lleyn, i W. Herbert Iarll Penfro.*

*Arall.*

Cloi dy dda, caledu 'dd wyd:
Caledach no'r clo ydwyd;
Diamwnd ar wydr wyd yma;
Dur ar y dur wrth roi da.
*Sion Phylip, i Edm. Prys.*

*Arall.*

Pèr bren dawn, pair obryn da;
Pôr gwyn blagurau Buga;
Edlingwalch o deilyngwaed;
Eryr trîn oreuraid draed;
Arwraidd dy luniaidd law,
Wyr burffrwyth iôr Aberffraw.
*Iolo Goch, i Ro. Mortimer.*

*Arall.*

Chwyn yw'r athrodwyr ywch ion,
A gwyg yw'r chwedlau gweigion.

Wrth y geiriau, *aerwy*, *frwyn*, *pêr bren*, *chwyn*, *gwyg*, a osodwyd gan y beirdd hein wrth gyffelybwriaeth eu notariaeth â'r gwŷr pendefigawl, y rhai a ganmolent ar eu cerdd.

*Arall.*

Llawer collwyn heb gwyno,
Llithrad hwn rhyd llethr y tô:
Llawer, hyd yn nhîr Llëyn,
Llwyn hesg yn llawen o hyn. *Ieuan Gethin.*

Gwelwch yma fwrw bod synwyr y gan beth marw, ar nid oes gantho. Yr un modd, pan ddycer gair perthyn-

asawl i ederyn, anifel, neu fwystfil, i'w gwplysa â dyn: Mal pan ddyweter, Edrych y trydar, neu'r gweryru, sydd ar y ferch yma. Yma y gwelwch fenthygu, neu ysmudaw gair o'i briodoldeb ei hunan, i'r gyffelybrwydd cyfnesaf, fal hyn:

Gwan a hen yw'r anghenfil;
Ac nid gwan gnoiad ei gîl.

*Arall.*

Rhusfa galon, sôn rhi seiniawdr arfau,
Rhugl ddraig mewn brwydrau rhiau rhuawdr.
*Einion Len, i R. ab Gruffydd, tad S. Gr. Llwyd.*

Achosion paham yr arferir y droell hon.

Yn gyntaf, er mwyn disoddi dall araeth, drwy roi ar gyffelybrwydd oleuad hydrych, i'w gweled yn eglur, ac i'w deall yn bwyllawg.

Yn ail, er mwyn cynhyrfu nwydau y gwrandawwyr, drwy gyfathrach, a'r gofyddeb rhwng y cyffelybrwydd a'r peth.

Yn drydydd, er mwyn cryfâu yn bybyr, a nerthogi yn rymusawl gyfaddas ddirgoel, a ffyrflondeb.

Yn bedwerydd, er mwyn cynnorthwyaw yr ofaeg, neu i ddal yn sicrach yr ymadrawdd benffygiawl, ar araeth droedig gyffelybus.

*Rhybudd.*

Gochelwch, wrth ymarfer â'r droell hon, roi anghyffelybrwydd dros gyffelybrwydd cydweddawl; megys pe dywedai ryw un, Mae y tarw yn cyfarth; anghyffelyb ydoedd. Gochelwch hefyd rhag benthyciaw, neu gyrchu y cyffelybrwydd o ryw bethau ar nas adnebydd y gwrandawwr.

## XIII. PENNOD.

### *Am Ddychymygair.*

At y ddull hon y perthyn gair gwneuthur; sef pan fo'r areithiwr yn dychymyg enw i ryw beth wrth ddynwared sain y peth y bo, drwy gyffelybrwydd, yn ei arwyddocâu.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Porth Tomas, porth nas porth nic,
Porth a ganydde gnwc yn ddi gnec.

*Arall.*

Gric crec, ni'm dawr pe crocid.
*D. ab Gwilym, i'r biogen.*

*Arall.*

Wich wech, yn ol chwech ei cham. *W. Lleyn, i fen.*

Yn ail, pan ddygwydd disgynedig oddiwrth y cysefinawl, a hyny wrth dueddu parth â chyffelybrwydd y peth; megys yr enwyd *Tewcria* o'r gair *Tewcrws;* caer *Ninife* o *Ninws;* a *Dinbech* o gyfansoddi y ddau air hein, sef din bach, y dref fechan.

## XIV. PENNOD.

### *Am Gyforddwyn.*

Yr ail gangen o'r ail rhyw droell ymadrawdd a elwir Cyforddwyn.

Cyforddwyn yw pan roddir y cydawl yn lle y rhan; neu y rhan yn lle y cydawl.

Rhan sy ddeurithiawl. Yn gyntaf, darn neu aelawd: fal hyn y mae braich, neu ben, yn aelodau o gorph dyn. cronglwyd a pharied, ynt ranau o dŷ. Yn ail, pob rhith tan ei ryw; fal hyn y mae tiriondeb ac ufydd-dawd yn rhithoedd tan eu rhyw, sef rhinwedd; angel a dyn tan eu rhyw, sef hanfod. Am hyny, o achaws yr amrithder hyn o ystyriaethau, y mae y droell hon yn anweddus. Sef—

I.

*Am Gyforddwyn darn.*

Cyforddwyn darn sydd, pan roddir ar yr ymadrawdd y darn yn lle y cyfan, fal hyn;

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Nid wyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd. Matt. 8. 8.

Wrth y gair *Cronglwyd,* hon oedd ddarn neu ran o'r tŷ, y deallir y tŷ i gyd ac yn gyfan.

*Arall.*

Pawl at y santeiddiedig ein Iesu Grist, sant wrth alwedigaeth, gydag oll ar a alwant ar enw ein Harglwydd Iesu Grist.

Wrth y gair yma, *a alwant,* y deallir holl anrhydedd Duw, a gwasanaeth ein Iôr tragwyddawl. Gwelwch yma roddi *Galwad,* hon yw rhan o'i wasanaeth, am y cwbl. Canys rhan o anrhydedd Duw yw galw arno. 1 Cor. 1. 2.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Trowch wyneb at trichannyn;
O throi d'ael ni thery dyn. *Tudyr Aled.*

Yma y gosododd y prydydd yr *ael*, hon yw rhan o'r wyneb, dros yr holl wyneb.

*Arall.*

Llawer calon bron heb ri',
Brudd, herwydd priddo Harri.

Y prydydd a osododd y gair yma, *Calon*, hon sydd ran o'r dyn, dros gwbl o'r dyn. Syna ddodi y rhan yn lle y cyfan.

*Arall.*

Y marchog hir y'mraich cad,
Mae'r wyd, garw mawr dy gariad?
Gwae fi! oer i'm gyfryw och,
Na bywn dyn â'i ben danoch!
*S. Tudyr, i Syr Ioan Salbri.*

Wrth y gair yma, *Pen*, hwn sy aelawd o'r corph, y deallir y cyfan; sef y corph i gyd.

II.

*Am Gyforddwyn rhith.*

Cyforddwyn rhith sydd, pan roddir ar ymadrawdd y rhith dros y rhyw; neu ynte pan ddeallom y rhyw wrth y rhith.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Mi a rybuchwn fod yn ysgargwbl oddiwrth Grist, dros fy mrodyr. Rhuf. 9. 3.

Y gair yma, *Brodyr*, a osododd Pawl, yn yr araeth hon, i arwyddocâu gair arall; sef ceraint; yr hwn air yw y rhyw; ac sydd yn gorymddwyn, ac yn cynnal y gair brodyr ynddo.

I wybod pa air yw y rhyw rhagor y rhith, gwna hyn: tro yr araeth yn y gwrthwyneb; ac oni bydd hi yn eirwir, y gair ni chydwedda, wrth droi, ydyw y rhyw. Mal hyn; fo ellir dywedyd, pob brawd sy garwr; onid ni ellir dywedyd, a throi yn y gwrthwyneb, fod pob carwr yn frawd; ac am hyny y gair *Carwr*, hwn nis goddef ei droi yn ddymchweledig, yw y rhyw.

*Arall.*

Pa le gan hyny y mae y ffrost? Hi a gauwyd allan. Trwy ba gyfraith? ai yn y gwethredoedd? nac ef; eithr gan gyfraith ffydd. Rhuf. 3. 27.

Wrth y gair *Cyfraith* y deallir athrawiaeth; yr hwn air sy gyffredinach; sef yn cofleidiaw y gair arall. Oblegid pob cyfraith sydd athrawiaeth; ond nid yw pob athrawiaeth yn gyfraith.

Yr ydys yn arfer y droell hon, pan osodir ar araeth, neu ysgrif, enw y naill wr neu ddyn am y llall; o ran rhyw gyffelybrwydd, dull, neu naturiaeth. Mal hyn y gellir galw gŵr hyfrifbwyll yn *Gato;* gwr cyfiawn yn *Aristides;* gŵr doeth yn *Selyf*; ymffrostiwr yn *Thraso*; cenfigenwr yn *Zoilus*; beiwr chwilserth, rhodresgar, yn *Fomus;* gwrthdeyrn yn *Nero*; a dyn bolgar, rhumenbuch, yn *Epicurus.*

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Troist yr iaith at Horas draw;
Twlli oeddit ail iddaw. — *Sion Tudyr.*

*Arall.*

Assa a haeddo sy heddyw;
Os yn y côr Seneca yw. — *Tudyr Aled.*

*Arall.*

Apollo 'r glêr, pel aur glod;
A Minerfa, mywn arfod. — *Edm. Prys, i S. Tudyr.*

Wrth y gair *Twlli* y deallir gwr hyffraeth; wrth y gair *Seneca* y deallir gŵr synwyrawl; wrth y gair *Apollo* y deallir gŵr doeth; wrth y gair *Minerfa* y deallir un dysgedig. Canys wrth roi enw *Twlli* ar ryw ŵr arall, rhaid yw deall y gamp a'r rhinwedd ydoedd ar *Dwlli*; ac am hyny, pan alwoch chwi ryw un yn *Dwlli,* yr ydych yn arwyddocâu gŵr hyffraeth; wrth roi y gair *Twlli,* hwn yw y rhith, yn lle gŵr hyawdl, y cenedlryw cyffredinawl.

Yr un ffunyd, at y ddull hon y perthyn, pan osodir mewn araeth, unig yn lle lliosawg.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn*:

Y dyn a enir o wraig, byr yw ei einioes, a llawn cynhyrfyd. Iob 14. 2.

Wrth y gair *Dyn* y deallir holl ddynion y byd. Wele ynte, yr unig dros y lliosawg.

*Engraff mewn Prydyddiaeth fal hyn*;

Mwyaf rhyfel a welais,
Y sydd rhwng Cymro a Sais.

Wele ddeall llawer wrth henwi un Cymro a Sais.

*Arall.*

Gware â'i waew a'i guras,
Y bu 'r gwr, a bwrw ei gâs.
Ni fedrai iarll, ban fai drin,
Ware cnocell a'r Cnwcin.
Gware a wnaeth ein gwr nod,
Tawlbwrdd gwŷrduon Talbod. *G. Glyn, i'r Cinast.*

Dyma roi y penllu yn unig yr orchest a wnaeth ef a'i filwyr gydag ef. Ac am hyny rhaid i chwi ddeall yn bwyllawg, pan gymmerer cymhariaeth rhwng unig a lliosawg, mai at y ddull yma y perthyn; rhagor pan ystyrir y penllu yn arweinydd i'r milwyr; yno y tuedda yr araeth parth â throell ymadrawdd arall, mal y dywedais uchod.

III.

*Am Gyforddwyn cydawl a chyfan.*

Cyforddwyn cydawl yw, pan gysoddir mewn araeth, neu ymadroddiaith, y cydawl yn lle y rhan.

Deurith gyforddwyn cydawl y sydd; sef, cyforddwyn cyfan, a chyforddwyn rhyw.

Cyforddwyn cyfan sydd, pan roddir ar ymadrawdd rhyw un air, a fyddo yn arwyddocâu peth cyfan dros ddarn o'r cyfan.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn;*

A breninoedd yr holl ddaiar a geisient olwg ar Selyf, i wrandaw ar ei ddoethineb ef. 1 Bren. 10. 14.

Dyma roi yr holl ddaiar yn lle darn mawr o'r byd; oblegid yr ydoedd llawer o'r breninoedd cenedlig, didduw, ar y pryd hyny, ar ni chlywsant son am Selyf; a phei clywsent, ni ddoent nac i ymofyn, nac i ymgais ag ef.

*Arall.*

Yr un peth hefyd a adliwiasant iddo, y lladron, y rhai a grogesid gydag ef. Matt. 27. 44.

Wrth y gair hwn, *Lladron*, y deallir un o'r ddau a grogesid gyda Christ; o achaws ni chablodd un o'r ddau ddim o hono; mal y tystia Luc 23. 39. Ac wrth hyn chwi welwch mor angenrheidiawl yw gwybod trofegau ymadrawdd, i iawn ddeall pwyll yr Ysgrythyr Lân.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Troes dinystr tros y dynion;
Trist yw'r gri tros daear gròn!
Mawr iawn rhoed môr Noe rhawg;
Mwy yw'r mawrchwedl marw marchawg!
*Rhys Cain, i Syr Ioan Salbri.*

Pan yw y prydydd yn rhoi yn y pennill *daiar gron,* wrth y cyfan y mae ef yn deall rhan fawr o'r ddaiar; sef y fro a gawsai golled am y farwolaeth.

Yr un modd at y ddull hon y perthyn, pan osodir ar ymadrawdd y lliosawg yn lle yr unig; sef, fal hyn yr ymadroddant breninoedd, a gwyr pengleddawl; Nyni sydd yn gorchymyn; Nyni sydd yn peri; Nyni sydd yn gwahardd; a'r cyfryw. Pan na bo onid un; nid amgenach teyrn, neu dywysawg, y modd hyny yn adrawdd ei wyllys wrth ereill.

IV.

*Am Gyforddwyn rhyw.*

Cyforddwyn rhyw sydd arferedig mewn ymadrawdd, pan ddyroir y rhyw cenedlawg, sef y gair cyffredinawl, cynnaliadwy, yn lle y rhith, neu y gair manwl amgyffredig.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn;*

Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Marc 16. 15.

Wrth y gair *Creadur*, y deallwn yr holl genedloedd; oblegid nid oedd Duw Iesu yn gorchymyn ac yn peri iddynt bregethu i'r main a'r creigiau; eithr i'r bobl. Ac herwydd hyny chwi a welwch fod y gair *Creadur*, wedi ei osawd yn lle *Gwerin*. Ac fal y dywedais y ffordd i chwi i ddeall pa un fydd y gair rhyw; syna, pan nas gellir troi yr araeth yn ei gwrthddrych; fal hyn; pob dyn sy gread-ur; ond nis gellwch ddywedyd, pob creadur sy ddyn. Ac am hyny y gair *Creadur* yw y rhyw, a'r gair *Dyn* yw y rhith.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Y tair chwaer ynt ry chwerwon,
Nis roe oes hir i Syr Sion.
Melltith dy fam it, Amen,
Atropos, pan ait â'r pen.

*Sion Tudyr, i Syr Ioan Salbri.*

Y *Tair Chwaer* yw y rhyw; ac a osodwyd yma yn lle y rhith; sef *Clotho*, *Lachesis*, *Atropos*.

*Antonomasia*, Lledenwiad.

Yn ol y ddull hon y rhoir, ar ymadrawdd, yn lle enw awdwr rhyw gelfyddyd, enw y gelfyddyd. Mal hyn y gellir dywedyd, y *Philosophydd*, dros *Aristoteles*; y *Groegfardd*, yn lle *Homer*; yr *Areithiwr Rhufeiniawl*, yn lle *Twlli*; a'r *Llaswrydd*, dros *Ddafydd Brophwyd*.

*Mewn Prydyddiaeth.*

I gadw rhoer y gadair hardd
Ar feddfaen yr ufyddfardd.

Mae yn meddwl Dafydd ab Edmwnd. Yr un ffunyd y dygwydd bod Newidenw, pan ddyweder y *Bardd*, a meddwl *Taliesin;* neu y *Prydydd*, a meddwl Dafydd ab Edmwnd; neu pan ddyweto gŵr, o'r deyrnas yma, y *Ddinas*, am *Lundain;* neu yn Ffrainc, y *Ddinas*, am *Baris;* neu *Tref yr Ysgytiaid*, am *Edynbwrw;* a thrwy y ddull hon y dywed y Cymro am bendefig ei wlad, y *Gŵr* neu yr *Aer*. Yn ol y ddull hon y gelwir dyn yn ol ei wlad, y *Ffranc*, y *Brythwn*, y *Sais*, a orchfygodd, neu a orchestodd; pan na byddid yn meddwl ond rhyw un dyn o'r gendl hyny.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

A chrio i Gymro'r gamp.

*Arall.*

Pan fu'r ymdynu am dani,
At ŵr y tŷ y t'rawyd hi.

*Rhybudd.*

Os arferwch y drofeg hon, rhaid yw edrych ar ddau beth: Yn gyntaf, ar ddethol rhanau cymhwys, neu rith cyfaddas; yn ail, ymogelwch ei arfer yn mhlith rhai annysgedig, neu ddynion rhodresgar, baigribiawg.

## XV. PENNOD.

### *Am Ddamchweiniau Trofeg; ac isod am Aralleg.*

Gan imi sôn uchod am droell ymadrawdd, a'i rhywogaethau, pob un yn neillduawl; yn awr rhybuchwn i chwi gydnabod â'r pethau sy ddamchweiniawl, a chroglathig wrthynt.

Tair damchweiniawl sydd iddynt.

I. Aralleg { Grwmeg. / Diheureb.
II. Gorwireb { Cynnyddeb. / Eiddileb.
III. Camarferiad.

*Aralleg.*

Aralleg sy, pan fo yr ymadroddwr areithgar yn gosawd dwy, o'r lleiaf, neu fwy o drofegau ymadrawdd i wneuthyd

yr iaith yn gymhenwedd i'w ffraethogi yn ddierth, ac yn barablus; er peri mwy o ddilysbryd ar wrandaw; er mwy o hysbysrwydd o'r peth a adroddir.

Y mae y ddull hon yn amryw. Y ddull gyntaf ar aralleg sy, pan toir dwy unrhith, neu unwedd drofaeg ymadrawdd, o'r hyn lleiaf, yn yr un synwyreg, neu amgenach mwy o honynt, yn ol damchweiniad yr arfaeth: sef dwy drawsenw, dwy drawsymddwyn, dwy watwaraeg, dwy gyforddwyn, neu ychwaneg.

Gwybyddwch, oni bydd dwy o'r troellau ymadrawdd, o'r hyn lleiaf, yn yr un synwyr, ni ddylid mo ei galw hi yn aralleg o'r ddull hon. O bydd mwy no dwy ni ym dawr o'r chwaneg.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Yr hwn sydd â'i wyntol yn ei law, ac a garth ei lawr, ac a gasgl ei wenith i'w ysgubawr; ond y gwanus a lysg ef â thân diddiffoddadwy, Matth. 3. 12.

Un yr araeth hon y mae chwech unrhith 'drofeg; sef trawsymddwyn. Yn gyntaf, y wyntol, yn lle barn Duw; yn ail, carthu, dros ddidoli y drwg oddiwrth y da; yn drydydd, y llawr, yn lle yr eglwys weledig; yn bedwerydd, y gwenith, dros y detholedig; yn bummed, ysgubawr, yn lle y nef; yn chweched, y gwanus, yn lle y gwrthodedig.

Pawb un o'r hein eiriau, yn neillduawl, ac ar eu penau eu hunain, a elwir trawsymddwyn, mal y dangosais uchod; ond y chwe gair hyn yn yr un frawddaeg a haeddasont enw arall; sef, aralleg ddychymygus.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Ni allai'r drain, a'r ller draw,
Ag imp euraid gompariaw;
Ni'th wyrai byth ŵr o bell,
Er rhybychu rhoi bachell.

*L. Môn, i Syr Th. Salbri.*

Yn yr areitheb gyntaf y mae tair trawsymddwyn; sef, drain, ller, ac imp; a chan ei bod mewn un synwyr brawddegawl, hi a elwir dychymyg arallegus.

*Am Rwmeg.*

Yr ail ddull sydd, a elwir yn briodawl Grwmeg, neu ddychymyg dammegawl, pan fo yr araeth mor dywyll ag nas gellir ond yn anhawdd iawn gasglu ei deall, a'i deongliad.

*Engraff fal hyn:*

Mil o wiwblant
O'm corph a dyfasant,
Yn feibion a merched,
Hardd wisg ei gweled;
Byw wyf yn arw,
Ac hwynt a fuont farw.
A garodd fy meibion
A fuont eu galon,
A lleas hwy ganthynt
Yn amser oerwynt.
Marw yn eu henaint
Fy merched darogaint;
Pa le o fyd
Nis gwn hefyd.

Deall y ddychymyg sy fal hyn: Pren oedd y fam; y ffrwythoedd oeddynt y meibion; y dail oedd y merched.

Yr un modd yn yr ysgrythyr lân y mae llawer o ddammegion tywyll: Megys y gwelawdd Nebuchadnezer mewn gweledigaeth, Bren gwych. Hwn oedd yn arwyddocâu ei wynfyd daearawl, ac ef ei hunan. Y fan lle yr oedd yn tyfu, oedd yn arwyddocâu mansoddiad ei deyrnas. Ei uchder, oedd yn dangos ei urddasoldeb. Ei amlddrych, oedd yn hòni ei ogoniant. Cadernid y pren, oedd yn mynegi ei allu. Ei ddail prydferthawl, oeddynt yn arwyddocâu ei wisgoedd, a'i gall ymwriaeth. Ffrwyth y pren, oedd yn dadgan ei gyfoeth dyfodawl, a'i ardreth gogyflwydd. Gwasgod y pren, oedd yn egluro amddiffyndawd ei danlwyddiaid. A'r adar yn mhlith y cangau, oeddent yn dammegu ei gynghorion pruddlyd, ac amryfel deyrnasoedd dano. Daniel 4.

### *Rhybudd.*

Y neb a arfero y ddull hon (cyd na ddylir canmawl ymarfer dim o honi) bydded tra gófalus rhag bod o'r cyffelybiaethau nac yn anghyfaddas; pei hyny, diau y perai anghyfanrwydd: nac yn orddierth; canys hyny a wnai yr araeth yn rhy dywyll; nac yn anniwair; canys hyny a wnai ei chasâu; nac yn dwyllodrus; mal y mae llawer o'r brudiau Cymroig, neu yn hytrach y cwbl: nac wrth rai anwybodus; canys hyny oedd dystewi er mwyn dywedyd chwedl i'r byddar.

III.

### *Am Ddiheureb.*

Y drydedd ddull y sydd, a elwir Diheureb; o achos nas gall neb ymddiheuro oddiwrth wiredd y cyfryw synwyr, arferedig yw; ac er hyny yn odidawg o ran cyffelybrwydd, ac arwyddocâad.

Y mae dau beth yn angenrheidiawl i ddiheureb. Yn gyntaf, bod o honi yn araeth hynod ymhlith y rhan

fwyaf; yn ail, bod o honi yn synwyrawl, ac yn ofyddus, i gael ei hadnabod yn wiwnodus, rhagor ymadrawdd sathredig a chyffrediu.

*Engraff.*

Deu-air sy raid eu deall :
Gair Mam; gair llysfam yw'r llall.

Y mae hyn yn ddywediad cyffredin: ni wnel gynghor ei fam, gwnaed gynghor ei lysfam.

*Arall.*

Y maen a dreigla, ni fysogla.

Hon sydd yn arwyddocâau na ddaw cyfoethogrwydd wrth ysmudaw o'r naill fan i'r llall yn ddiystyr.

*Arall.*

Po tynaf fo y llinyn, cyntaf y tyr.

Sef, po mwyaf fo y lludded, cyntaf fydd y diwedd. Dyma ddywediad adnewyddedig o hynodrwydd odidawg.

---

## XVI. PENNOD.

### *Am Orwireb.*

Ail damchweiniawl trofaeg ymadrawdd yw Gorwireb. Gorwireb ynte yw areitheb yn gorchafu gwirionedd, er mwyn chwanegu, neu ynte leiâu y peth adroddedig; nid ar oddeu twyllaw neu wrthebu gorwyddgel anghywir; ond ar fedr amlâu mawredd, neu fychanrwydd, rhyw bethau, ar gyffelybrwydd gorbenig.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lan.*

Diolchaf i Dduw drwy Iesu Grist drosoch chwi oll; o blegid bod eich ffydd chwi yn honaid dros yr holl fyd. Rhuf. 1. 9.

Y mae yr apostol yn y geiriau hyn, *Dros yr holl fyd,* yn orchafus yn dangos fyned clod y Rhufeinwyr y pryd hyny yn mhell ar fyd; ac am hyny y rhodd ef y chwanegedigaeth hyn; nid mal pei clywsai bob ban o'r byd sôn am y Cristionogion o Rufain; ond er mwyn eu hannog

hwynt yn glodfawr i gynnyddu yn ddifeth yn y Gristionogaeth, hon a oseiliesid yn eu plith.

*Engraff mewn Prydyddiaeth,*

Pe bai ganmil yn ddilys
O erydr rhif ar dir Rhys,
A thrichan gwinllan â gwin,
Ac yn malu gan melin;
Pe bai 'r ddaear yn fara,
Neu flas dwr fal osai da;
Yn ei wledd rhyfedd barhâu
Dwr a daear dri diau.

*D. Nanmor, i Rys o Dowyn.*

*Arall.*

A bod ei law, be doe hu,
Ar gleddau, er ei gladdu;
A'i lun gwrawl yn gorwedd
Ef a wnai 'r beilch ofni 'r bedd.

Yn ol y gymhariad fwyadwy hon, 'y gellir dywedyd, gwynach no'r eiry, a duach no'r muchudd, buanach no'r wennol, cryfach no mil, creulonach nog Ysgythiad:—

Amlach ych, a mêl, a chàn,
Nog yw 'r gro, neu 'r graig raian;
Aml o bènau mil beunydd;
Aml ei drin, mal ôd ar wydd;
Aml o ffrwyth, mal ael ffair wych;
Aml, os rhaid, mal sêr ydych.

*L. Môn, i S. Ro. Salbri.*

Dyma chwanegu ar araeth, a mwyâu gwirionedd y peth amgenach nog ydoedd ar wir iaith; ac er hyny yn ddifai; o achaws nid oedd bryd a meddwl y prydydd ar ddywedyd celwydd; onid rhoi canmoliaeth addas wrth y cymhariad chwanegawl hyn.

Yr un modd y rhaid barnu pan ddygwyddo cymhariad lleiadawg: megis pan ddywedwn fod rhyw beth yn llai no'r gwreinnyn; neu, dacw ddyn can lleied a'm dwrn.

Fo arferir y ddull yma ar gymhariad gyfardal, neu gyfwastad, ddwy ffordd.

I.

*Auxesis.* Cynnyddiaith.

Y gyntaf a elwir Cynnyddiaith: a hon yw ffurf ymadrawdd pan fo yr areithiwr yn amlâu wrth osod y gair *mwy* am y gair *llai*. Mal hyn y dywedwn fod gwrda yn

sant; fod sarthes yn ddiawl; fod merch lân yn angel; fod gŵr balch yn Luciffer; fod meddwyn yn fochyn; fod cybydd yn dorgeg; ac ocrwr yn flaidd.

II.

### *Meiosis.* Eiddileb.

Yr ail a elwir Eiddileb; sef pan osodir y gair *llai* am y gair *mwy;* er mwyn ymddangos o hono yn llai nog y bo, neu yn fychan iawn: megis pei galwai ryw un athraw dysgedig yn ysgolâig tlws; neu archoll fawr yn gripiad.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Dy gywion di dwg yn d'ol;
Dycant hwy deucant heol.

*Arall.*

Y gŵr â'i wallt yn gaer wiw,
Fal gwichiedyn gwych ydiw. *L. Daron.*

Yn y geiriau *Cywion* a *Gwichiedyn,* y mae gostyngiad ar urddas y peth, gan iselder, eiddildra, a llesgedd y geiriau.

*Rhybudd.*

Rhaid yw gochelyd wrth ymarfer â'r ddull hon rhag dau beth: yn gyntaf, rhag gorchafu, neu oramlu difuddbeth, neu goeg-beth, ac hefyd rhag lleiâu goruchafiaeth ac iawn-glod pethau hynod a dawnus, amgenach nog yn gyfardal, y peth hyn sydd waharddedig; yn ail, er bod peth yn haeddu moliannedigaeth, a gwiwfawl gymhendawd; hagen, rhaid yw bod yn ofalus na bo y cymhariad yn gormoddu uwchlaw anian ac ynadrwydd y ddull hon; sef goruchddygiad, mal y mae yn hyn:

Gorddu yw brig Iwerddon
Gan fwg ceginau o Fôn. *L. Glyn Cothi.*

*Neu fal hyn:*

Naw cyfoeth y byd Ieuan a'i cafas;
Naw pryd angylaidd mewn prïodas;
Naw plwyf a chan plwyf ynghylch un-plâs;
Naw allu 'mhob plwyf, naw llu 'mhob plâs.
*Nawdd Duw rhag y gwthiaw!*

## XVII. PENNOD.

*Am Gamarferiad.*

Y TRYDYDD ddamchweiniawl troell ymadrawdd a elwir Camarfer; sef pan fo yr ymadroddwr, neu yr ysgrifenydd, ag arno eisieu gair prïawd, cymhwys, ac achaws hyny yn benthyciaw y nesaf, neu y cyffelypaf i'r peth, a wyllysiai ei arwyddocâu.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Hwy a yfant wir-waed y grawn gwîn. Deut. 3. Y gair *Gwaed* a osododd Moesen dros sugn y bagad grawn. Drwy gènad y ddull hon, yr ydym yn rhoi henwau ar bethau nid oes iddynt enwau prïawd: megis pan ddywedwn, ar araeth, cyrn y falwen, traed yr ystôl; a'r un modd am bethau ereill, ar nid oes iddynt enwau prïodawl. Yn y ddull hon y galwodd D. ab Gwilym Ifor Hael—

Cyfaillt a mab aillt y beirdd.

Dyma roddi gair yn agos at ei arwyddocâad ei hunan, ac etwa yn ystlysu peth heibio.

*Rhybudd.*

Gochelwch yn y ddull yma gyrchu y trawsymddwyn, neu y cyffelybiaeth, o rybell, neu o beth anhygon; ac yn nesaf, na arferwch gamarfer yn fynych; neu yn hytrach un amser; oddigerth yn amser angen; sef pan fo eisieu gair prïawd hywaith, hywedd; yno y gellwch geisiaw y cymhorth a gaffoch.

## XVIII. PENNOD.

*Am Wahaniad ymadrawdd a'i nodau.*

HYD yma bu dosparth ar y rhan gyntaf i addurneg; yr ail ran a ganlyn, sef Dull Ymadrawdd neu Ffugyr. Ond er mwyn deall yn well, a gwybod yn hyfetrach dull ymadrawdd, gwelaf yn iawn roi yma ar lawr, cyn imi sôn am dani, y peth sy angenrhaid i'w wybod o flaenllaw, yn ddiameu fryd; sef nodau gwahanedigaeth ymadrawdd; nid amgen:

I. Rhagwahannod.
II. Gwahannod.
III. Cyfannod.
IV. Gofynnod.

I.

Rhagwannod, neu Dòrnod, sy ran o'r areitheb ymadroddus, wedi ei chyfansoddi heb un gorair ynddi; a'i nôd sy fal hyn:—, , , ,

Rhaid yw canmawl teyrnoedd am eu doethineb, crefydd, cyfiawnder, trugaredd, tiriondeb, rhagweledigaeth, haelioni, a'r cyfryw; ynadoedd am eu pwylledd, ofn Duw, dysgeidiaeth, dioferfryd, gwyliadwriaeth; yr athraw lenach am ei ddysg, ei ddifrifbwyll, ei fuchedd dda, ei hyddysg athrawiaeth, ei ofalfryd dros ei gail, ei wadalwch mewn gwirionedd, a'i gariad perffaith tuagat oll; y penllu am ei gywreinrwydd, ei rhagfwriad, ei ffyddlondeb, ei lewder, ei galonwriaeth, a'i ddewrder.

Gwahannod yw rhan areitheb yn gobenyddu ar ei gorair, ac yn perffeithio y synwyr i'r gyfannod, a'i nod sy fal hyn:—; ; ; ;

A phan gyglyu hyny; dyfod y Prydeiniaid i'r Iwerddon: cynnullaw llu dirfawr a orug; a dyfod yn eu herbyn.

*Mewn Prydyddiaeth;*

Nid tref heb ddefawd;
Nid tir heb wirawd;
Nid parawd dyrnawd,
Heb fawd, heb fys. *L. Glyn Cothi.*

Y mae y gorair yn lledgudd, sef bu neu arall.

III.

Cyfannod yw areitheb yn perffeithiaw y synwyr iddi ei hun; a'i nôd sy fal hyn:—....

Nid da câd annir.
Nid unnerth ond undeb.
Nid rhwysg ond rhinwedd.
Nid llaw ond llwyddiant.
Nid arfod ond gorfod.

A fo hael (gafael gyfun)
A hy; bid o'i dda ei hun.

IV.

Gofynnod yw areitheb yn ymofyn rhyw beth, gan chwennychu caffael ateb amdano; a'i nod sy fal hyn:—
? ? ? ?

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Pwy o'r hael pur wehelyth,
Pwy rai beilch sy'n parâu byth,
Ba ddug o bai dda ei waith,
Ba frenin, heb farw unwaith? *Ior. Vynglwyd.*

Yn awr hyn, wedi trefnu hyn o arlwy i'ch rhwyddo ar ffordd gwybodaeth dull ymadrawdd, hon nis gellir ei deall nac ei gwybod heb wahaniaeth yr ymadrawdd, hon sydd yn cyfrwyddo i adnabod rhifedi ffraethinebawl, mi a ddosparthaf o hyn allan arni, ac a'i mynegaf yn ddiymsang.

## XIX. PENNOD.

### *Am Ddull Ymadrawdd.*

Dull Ymadrawdd, neu Ffugyr, sydd addurneg, drwy ba un y newidir llunwedd neu gaffaelwedd ar iaith i gynnefindawd amgenedig, drwy ffurf a newydd gyfansoddiad.

Deurith Ddullwedd Ymadrawdd, neu Ffugyr, y sydd: yn gyntaf, llunwedd, neu ffugyr Gair; yn ail, llunwedd, neu ffugyr Brawddaeg.

Llunwedd geiriawl sydd, pan ddullweddir addurneg â geiriau cymhwyssain, a glwyssain; o ba rai y gyntaf yw Cyfieuad, neu Gyfansoddiad.

## XX. PENNOD.

### *Am Gyfieuad.*

Cyfieuad, neu ogyswllt, sy lunwedd geiriawl, pan liosogir, neu pan ogysylltir yr un sain, neu y gair yn ddigyfwng, yn fynych, yn amnaid, yn yr un araeth frawddegawl, er mwyn gorlenwi, ac anghwanegu grym a nerth yr ymadrawdd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

O, fy mab Absalom! fy mab! fy mab Absalom! Duw, buaswn farw drosot! O Absalom fy mab! fy mab! Sam. 13, 33.

Gwelwch yma gyssylltu yr un gair ynghyd, heb ddim cyfrwng rhyngddynt, oddigerth rhagwahannod yn yr un frawddaeg.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Llàn uchel yn llawn iechyd,
O bob digrifwch o'r byd;
Llawn traserch yw; llawn trysor;
Llawn cerdd felysig mewn côr;
Llawn, llawn, llawn, llawn llawenydd;
Llawn oes deg, heb nos, ond dydd;
Llawn aml yw'r llàn yma;
Llawn, llawn o bob dawn da! *I. Cent, i'r Nef.*

*Arall.*

A wnel gogan ac anair;
Am ogan, gogan a gair. *Gr. Hiraethog.*

*Arall.*

Mawr y darfu marw dewr-fab;
Marw mawr mawr, Mair Mair a'i Mab! *Tudyr Aled.*

Gwelwch ogysylltu a chyfieuo yr un gair yn fynych, yn yr un frawddaeg, er mwyn dangos grym y nwydau, wrth eu llafaru yn fuan ac yn ddiaros. Ac o herwydd hyny, gochelwch rhag bod y geiriau a arferoch yn y ddull yma o dair sillaf; canys hyny a wnai yr araeth yn wrthun, ac yn anferth.

## XXI. PENNOD.

### *Am Rwngsangiad.*

Ail rhith gogyswllt y sydd, pan roir gair neu ddau yn nghyfrwng y rhai hyn a gyfieuir.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Fy nghalon sy sythgar, O Dduw, fy ngalon sy sythgar, Psalm 57. 7.

Wele roddi yn gyfrwng y gair *Duw* rhwng y geiriau sydd yn gwneuthyd gogyswllt neu gyfieuad.

*Arall:*

Ni esgynodd neb un i'r nef, eithr y neb a ddaeth o'r nef, sef Mab y dyn, hwn sydd yn y nef. Ioan 3. 13.

Y gair yma *Nef* a liosogwyd deirgwaith yn yr un frawddeg gyfannodawl. A hon sy rith arall ar gyfieuad, oblegid mynych arfer yr un gyfannod, fal hyn: O frenin, ti sy frenin ar freninoedd.

## XXII. PENNOD.

*Am Drycheb.*

Weithiau fo ddygwydd trychu y gair a chyfryngu geiriau rhwng y ddau ddarn hyny.

*Engraff.*

Ysgyfar (yn âr y nos)
Nogod sy yma 'n agos.

Yma y sangwyd geiriau rhwng y ddau hanner. Nid gwiw arfer y ddull hon, ond pan fo achaws yn peri angenrhaid y drychiad hòno; naill ai i achub pennill, ai ynte i gymhwysaw, ac i harddu sain ac oslef yr araeth.

*Rhybudd.*

Rhaid gochelyd yn y ddull a elwir gogyswllt, a'i rhith-oedd, rhag dygwydd caniad y gôg; nid amgen, pan fo un yn ymarfer ag atsain yr un gair yn annhrefnus, neu yn rhy fynych, yr hyn beth a flina y gwrandawwyr; ac felly ni fyddai gyfaddas i gynhyrfu y nwydau, na chwaith yn debyg i ddau achenaid o'r galon.

## XXIII. PENNOD.

*Am Wahansangiad.*

Weithiau arall ef a sengir rhwng y geiriau cysylltiawg, wahansangiad heb dynu ymaith ddim o synwyr y frawdd-aeg; canys cyd byddai ddierthsangiad i'r areitheg, hi a wasanaetha i'w haddurnâu hi â rhyw reswm, neu i'w goleuaw yn arglaerach, fal hyn:—

Llaweroedd a heurant fod yr offeren (anafawd a di-fwyniant gwir ddyoddefaint Crist) o'i theilyngdra yn gallu gweithredu a rhyglyddu, nid yn unig maddeuant pech-odau; eithr hefyd iachâu rhai cleifion, dynion, ychain, a defaid.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Ni bydd y gwan heb iddo garn
(Iesu gedid) sy gadarn;
Heb air o'i ben y bu'r balch
Rhag d'ofn, y rhywiog difalch.

*T. Aled, i Syr Ro. Salbri.*

*Arall.*

Petwn (un nid oeddwn i)
Goganwr a gwae gyni. *Hywel Cilan.*

Syna wahanu gosodiad yr ymadrawdd, gan sengu rheswm y mewn ei ganol; yr hwn pe ei gedid allan ni wyddid ei eisieu chwaith. A'r rheswm, pan sengir y mewn, a gylchir â rhyw hanner cylchau â'r rhai hyny uchod, er rhwyddâu rhag y darllenydd yn ebrwyddach.

*Rhybudd.*

Gochelwch rhag bod o'r gwahansangiad yn rhy hir; canys pei hir fyddai, y synwyr a dywyller yn orddu, a'r ymadrawdd flaenorawl a ai yn abyrgofus; a chyffelyb fyddai i ddodrefn tŷ a fai yn cyflenwi lle, heb hagen fudd o hono, amyn bod yn annifeth i bob rhyw wasanaeth.

---

## XXIV. PENNOD.

### *Am Adgymmeriad.*

ADGYMMERIAD yw addurneg, pan adroddir yr unrhyw sain, yn niwedd y frawddaeg flaenorawg, ac yn nechreu yr araeth ddylynawl. Y rhagoriaeth sy rhwng y ddull yma â gogyswllt a ganfyddwch, os deallwch fod gogyswllt yn nodweddu â rhagwahannod; eithr hon sydd yn nodweddu â gwahannod, neu â chyfannod.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lan, fal hyn:*

Gan fod Iehofah dy Dduw ar dy ddwyn di yn ebrwydd i'r gorau o dîr; tîr gwiw-wlyb ag afonydd, dyfroedd, ffynnonydd, ac egionydd. Deut. 8. 7.

*Arall.*

Canys y bobl sydd wrthryfelawg, a geu-blant; plant nis gwrandawant ar gyfraith yr Arglwydd. Isaiah 30. 9.

Gwelwch adgymmeryd y gair *Plant*, hwn a orbenodd yr araeth, a gwahannod i ddechreu y llall a ganlyn.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Mal blodau prenau 'n mhob rhith,
Fal ôd, fal adar ar wenith;
Fal y daw y gwlaw, a'r gwlith,
Mae i undyn fy mendith.

Bendith tra bo gwlith y glyn
Rois i ti Rys y Tywyn;
Tra bo'r muroedd lle'r oeddyn',
Na main, neu bridd y mewn bryn. *D. Nanmor.*

*Arall.*

Tros siroedd, tiroedd, caterwen, a'i brig
Tyb rhagor breninbren,
Teiroes gŵr it', rhwysg Urien,
Tau swyddau byd, ti sydd ben.

Pen marchawg enwawg enaid pwys Dinbych,
Post iawn-ben Salbriaid;
Pena' aig gwyr paen cywiriaid;
Pendefig paladrfrig plaid.

*G. Hiraethog, i S. Salbri.*

Gwelwch fod yma yn adgymmeredig y gair diweddaf o'r naill bennill, a'r gair cyntaf o'r llall; mal y bydd mewn gostegion odlau, diwedd y naill englyn yn dechreu y llall.

*Rhybudd.*

Rhaid yw bod yn ofalus yma ar roddi y gair adgymmeredig yn y nodeb gryfaf a chadarnaf o'r ddwy; a hyny mewn defnydd newydd.

## XXV. PENNOD.

*Am Orgytgam.*

Ail rhith adgymmeriad y sydd yn gwahanu yr araeth wrth osawd graddau amryfel ynddi, o fod i'r gair a fo yn diweddu y nodeb areithiawl flaenorawg eilchwyl ddechreu yr un a ddylyn; a hi a elwir Gorgytgam, neu lusgiad. A hyn o wrthsyniad sy rhwng hon a'r rhith cyntaf; sef, bod hon yn ymwastatâu yn amnaid ar lawer o raddau.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn.*

Yn y dechreuad yr oedd y Gair; a'r Gair oedd Dduw; a Duw oedd y Gair. Ioan 1. 1.

*Arall.*

Gorthrymder a ddwg ddyoddefgarwch, a dyoddefgarwch brofiad, a phrofiad obaith, a gobaith ni chywilyddia. Rhuf. 5. 3, 4, 5.

*Arall:*

Yr archdeyrnogaeth gyntaf oedd yr Assyriaid, neu y Caldaiaid; y Caldaiaid a orchfygwyd gan y Mediaid, a'r Persaid; y Persaid a orchfygwyd gan y Groegiaid; y Groegiaid a orchfygwyd gan y Rhufeinwyr; y Rhufeinwyr a orchfygwyd gan y Gottiaid. Gwelwch fod yr un gair yn diweddu yn y wahannod, ac yn dechreu yr araeth ddylynawl.

*Rhybudd.*

Gochelwch gyfosawd yn y ddull hon uwchlaw pump o raddau; ac edrychwch ar fod y rhai hyny yn mwyâu, ac nid yn lleiâu yr arwyddoccâad, yn enwedig yn y radd ddiweddaf.

## XXVI. PENNOD.

*Am Edryd.*

EDRYD yw ffugyr, pan adroddir yr un sain yn nechreuad y brawddegau, neu y synwyrau.

Amryw rithogaeth sydd iddi.

I.

Yn gyntaf pan adroddir y cyffelyb sain yn y dechreuad mewn geiriau amryfel.

*Engraff.*

Y barnwr a lygro; y duwinwr a athrawo grwydrddysg; y physygwr a gam-feddyginiaetho; bo iddynt draed hirion helbul, ac einioes fèr ar y ddaiar.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

I glai y glyn  
Ydd ai oedd yn',  
Y rhai er hyn,  
I Dduw ydd aeth. *D. ab Edmwnd.*

*Arall.*

Llydan oedd gastell Edwart,  
A'i dyrau gwych, a'i dair gwart.  
Caerau Edwart cwncwerwr,  
Tyrau oedd ar gaerau 'r gŵr.  
*G. Glyn, i Gaer-yn-arfon.*

Y mae y geiriau hyn, *Caerau* a *Thyrau*, yn unsain yn dechreu yr araeth gyfannodawl, a rhagwahannodawl; ac etwa y maent yn eiriau amryfel.

II.

Ail rhithogaeth sydd yn unrhyw air mewn edryd yn y bannodau.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn;*

Llais yr Arglwydd aruwch y dyfroedd; llais y Cadr-dduw aruwch y dyfroedd lliosawg sydd yn taranadu; llais yr Arglwydd sydd yn drylliaw y cedriwydd. Psalm 2. 3, 5.

Gwelwch osawd y gair *Llais* deirgwaith yn nechreuad yr ebiaith wahannodawl.

*Arall.*

Pa le mae y doeth? pa le mae y gŵr llên? pa le mae dadleuwr y byd hwn? oni wnaeth Duw ddoethineb y byd hwn yn ynfydrwydd? 1 Cor. 1. 2.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Bo meibion d'wyrion yn d'oes;
Bo i'th wyneb byth einioes.
Bo'r gwallt ar liw brig y wal;
Bo'ch gyoed â'r baich gwial.

*T. Aled, i'r T. Salbri hen.*

*Arall.*

Bu ŵr fwyfwy fal y brif afon;
Bu'n tòri clefyd, bu'n troi cleifion;
Bu iachusach byw o'i achosion;
Bu werthfawr iddynt borth efryddon.
Bu'n gloewi delli deillion i weled;
Bu fwy y wared byw o feirwon.

*Gr. ab Efan, ysw. yn muchedd Iesu.*

*Arall.*

Rhan i ddau mewn rhinwedd dda,
Rhy lonydd, rhy lew yna.
Er goddef awr y gweddai;
Ar oddef fyth yr oedd fai.

*T. Aled, i Syr T. Salbri.*

*Arall.*

Pen teyrn, heyrn a hoed o'i law:
Pen teyrnwalch balch, bwlch i ddeifiaw;
Pen teyrnaidd flaidd flaengar gantaw,
Pen teyrndref dref o nawdd iddaw.

*Gr. yr Ynad, i'r Tywysawg Llywelyn.*

Syna y gair *Pen* bedeirgwaith yn dechreu yn y bannodau; yn amlâu yr arwyddocâad, ac yn bodloni y clybod yn hyryw.

III.

Weithiau fo ddygwydd dwy edryd gwrthebawg ac yn gyfroddedd.

*Engraff fal hyn:*

Y dyn cybydd sy bob amser yn dylawd; y dyn anghybydd sy bob amser yn oludawg; y dyn cybydd sydd elyn iddo ei hun; y dyn anghybydd sy gynnorthwywr i eraill; y dyn cybyddawg sydd yn llawn gofalon; y dyn anghybydd sydd yn llawn o ddydyanwch a llawenydd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Us mân yw'r cedeirn sy mewn codiad;
Ac aur wyt tithau, teg wrteithiad;
A ller yn' wrthych, ŵr llwyr nerthiad;
A gwenithyn wyd gan waith nodiad;
Am hyn, fy rhosyn, cei fawrhâd Cymru,
Ac iawn oedd dynu Gwynedd danad.

*L. Môn, i S. Salbri o Leweni.*

Rhaid yw gochelyd, wrth ymarfer â'r ddull hon, rhag cymmeryd na'r gair gwaelaf, na'r gwànaf, yn y bannodau.

IV.

Rhith arall ar edryd sy gynhebyg, pan ddechreuo llawer o eiriau ar yr un llythyren olynol.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Dwg duth didawl, druth dadl dri, dewr Dudyr,
Dros dir didwyll derdri;
Dyn daer, doeth, dan dy dwr di,
Dal delw drist, dêl dail drosti.

*Rhybudd.*

Mynych ymarfer â'r ddull hon sydd anhydraeth; canys gormod awydd iddi sydd argoel ynfydrwydd; a'r sain sydd anhyawdl, a thrwsgl, mal y clywch yn yr engraff uchod.

## XXVII. PENNOD.

*Am Ddarymchwel.*

Darymchwel yw, pan adroddir y cyffelyb sain neu air yn nghloedigaethau neu ddiweddion brawddegau.

Deufath ddarymchwel y sydd.

I.

Y rhyw gyntaf, pan adroddir yn niwedd bannodau y cyffelyb sain.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Deddfolion ddynion hwynt a watwarant:
Yr adar a hedant, a'r pysg a nofiant,
A'r pryfed a 'mlusgant, a'r gwenyn a felant;
Pob peth a ymdaith i gynnull ei borthiant,
Ond y clêr a goddant, a'r lladron a'u difwynant.
*Taliesin.*

Gwelwch fod y cyffelyb sain yn y bannodau; sef, gwahannodawl, a chyfannodawl, lle mae y sain yn diweddu yn *ant*.

*Arall.*

Hygad uriad, arail can-car,
Hygall, hyball, hybwyll lafar,
Hygadr paladr, pelydr creugar;
Hygryn helym, hoewlathr aerddar,
Glaif cythrudd, anhygudd, anhygar. *Einion Lên.*

*Arall.*

Tra bo cywir cerdd, tra bo curo câd,
Tra bo rhwydd yn rhoi, tra bo rhodd yn rhâd,
Tra bo hael yn hael, tra bo hîl na hâd,
Tra bo tyrfa 'n glir, tra bo tref na gwlad;
Ti gei glod bennod heb wâd na therfyn,
Tra fager oes dyn, tra fo gŵr o 'stâd.
*L. Môn, i I. Salbri, o Leweni.*

*Arall.*

Ni ddichyn gŵr a chefn gwàn
Dwyn baich onid un bychan;
Blin yw dwyn olwyn eilwaith,
Yn rhydd, i ben mynydd maith.
*Ed. Ll. i Syr Io. Salbri.*

Yr un ffunyd, yn ol y ddull yma y bernir, pan osoder llawer o eiriau ynghyd, a font yn terfynu yn unawdl; a Thebygddiweddiad y gelwir.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Dysgu, cymmysgu masgoed a'u mysgu;
Dysgu dilesgu dan dew lasgoed.

Y ddull hon a adnebyddir, pan na bo dychweliad yn yr araeth, eithr goreiriau.

Ar hyny, pan fo yr araeth yn lliosawg o eiriau yn yr un treigl, ac yn unawdl; neu yn gyffelyb y llythyrau diweddaf i bob un; Cynhebygawdl y gelwir; fal hyn mewn prydyddiaeth:—

Tadmaeth, mammaeth, llaeth, a llo.

II.

Dull arall ar ddadymchwel y sydd, pan adroddir yn y diwedd yr un gair yn bendant.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn;*

Oni phrophwydasom ni yn dy enw di?
Oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di?
Oni wneuthom wrthiau yn dy enw di? *Math.* 7. 28.

*Arall.*

Y dyn swyddymgais yn gyntaf a fynai fod yn nesaf at y gorau; yn ol hyny a fynai fod yn ogystadl â'r gorau; yn ddiweddaf a fynai fod uwchlaw y gorau.

Gwelwch yma fod yr un gair yn diweddu y bannodau gwahannod a chyfannod.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Na chredwch i air rhydeg;
Antur o dwyll ond trwy dêg.

*Arall.*

Byw eich caf heb eich cyfuwch;
Berain aer, ba wr yn uwch?

Y mae y ddull hon yn addurnawd mawr i ffraethineb, ac yn cadw y sain yn hwy o amser yn meddwl y gwrandawwyr.

*Rhybudd.*

Gochelwch arfer dadymchwel yn rhy fynych yn yr un areithwriaeth; o achaws y gweddai yn well i'r araeth wrth ei chymmeryd yn arbedus, neu ei thanu yn odeneu ac yn anghysbell.

---

## XXVIII. PENNOD.

### *Am Ailymgyrch.*

AILYMGYRCH yw dull ar osodiad geiriau; sef, pan gymmerir yr unrhyw sain yn nechreu ac yn niwedd un bannod.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn*:

O chwi drefydd diofalus! yn ol blynyddoedd a dyddiau y gyrir braw arnoch chwi, drefydd diofalus! Isaiah 34.

*Arall.*

Llawenychwch yn yr Arglwydd; drachefn meddaf, llawenychwch. Philip. 4. 4.

Gwelwch fod y gair *llawenychwch* yn nechreu y bannod, a'r un gair eilchwyl yn diweddu y bannod.

*Mewn Prydyddiaeth.*

Diswydd wyf pan dreiglwyf draw;
A Duw sydd i'm diswyddaw.

*Arall.*

Dedwydd fu, daed oedd ei fyd:
Da diweddir dedwyddyd.

*T. Aled, i'r T. Salbri hen.*

I.

Dull arall ar Ailymgyrch y sydd, pan adroddir y cyffelyb, a'r cydawdl unsain yn gydwedd, yn nechreuad a diweddiad un bannod, fal hyn:—

Hedd a ymlyn wrth y dyn a gymmero amynedd.
Calon wrawl a wneiff ddifeth ofalon.

Gwelwch fod y sain *lòn* yn y gair cyntaf yn unwedd â hon sydd yn diweddu y bannodawl ymadrawdd.

II.

Pan fo yr un gair prïawd yn dechreu ac yn diweddu yr un bannod, ac nid gair cyffredin, Attill y gelwir; ac yno yr ail gair sydd o arwyddocâad ansoddawl; fal hyn:

Arthur yn y fuddygoliaeth hòno a ymddangosodd yn Arthur.

Y gair prïawd hwn, sydd yn diweddu y bannod, sydd yn arwyddocâu rhinwedd filwrawg, ddynawl, mewn Arthur.

III.

Pan fo yr un gair cyffredin yn nechreu ac yn niwedd yr un bannod, Gwahanblyg y gelwir; fal hyn:—

Meddyg, iachâa dy hun, os wyt ti feddyg.

Y gair diweddawl yma sydd yn arwyddocâu cywreintrwydd y meddyg, a'r gwybodaeth y sydd ynddo. Herwydd paham rhaid i'r gair a ddiweddo, yn y ffugyr hon, fod yn nerthawg i arwyddocâu cyffrediniaeth.

IV.

Rhith arall ar Ailymgyrch a elwir Catblyg, y sy ffurf ymadrawdd, pan fo llawer o ranau yr araeth yn dechreu ar unrhyw sain, a diwedd cynnifer yn unsain, ac unawdl. Mae hi yn amgyffred dwy o'r rhai uchod ynddi; sef, edryd, a darymchwel.

Mae hi o amryw wedd.

I.

Yn gyntaf, pan adroddir yr unwedd nifersain yn nechreuad a diweddiad amryw fannodau, fal hyn:

Tiriondeb a bair hedd;
Anghysondeb a dyr annedd.

*Arall.*

Trahäus a elwa niwed; ae
Amhëus ni cheiff gêd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Hywel o uchel achau,
Hael, anniwair, nid gair gau. *Gr. Gryg.*

Wele sillafau diweddawl y geiriau cyntaf; sef Hywel a hael o unwedd nifersain; a hefyd y geiriau diweddaf yn unsain; rhai ynt megis yn lliwiaw y ddullwedd hon, ac yn trwsiaw yr ymadrawdd yn hyglyw.

II

Yr ail wedd sydd, pan adroddir yr unrhyw eiriau yn y dechreuad, a'r unrhyw yn y diweddiad.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Derbyniwch ni: ni wnaethom gamwedd i nebun; ni anrheithiasom nebun; ni somasom nebun. 2 Cor. 7. 2.

*Arall.*

Pwy a laddodd ei fam? Nero.
Pwy a laddodd ei wraig? Nero.
Pwy a laddodd ei athraw? Nero.
Pwy a laddodd ei gynghorwr? Nero.
Pwy o'r diwedd a'i lladdodd ei hun? Nero.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Gair a gai, trugarawg wyd;
Gair y wlad, gwrawl ydwyd.

*Arall.*

Aer i ddwy nain, hardd iawn yw;
Aer deudaid, euraid ydyw;
Aer Lleweni, iarll henwaed;
Aer Berain yw, bur iawn waed.

*S. Phylip, i Io. Salbri.*

Y mae y ddull yma yn gwasanaethu y nwydau, yn boddâu y glust, ac yn addurnaw yr araeth; drwy na bo goramledd o ranau iddi; na gormod o aelodau i bylu y clybod.

III.

Dull arall ar Ailymgyrch sydd, pan adroddir yr un gair yn niwedd a dechreu y bannod gwahannodawl; hagen yn y diwedd yn arwyddocâu rhyw beth gwrthwyneb, neu o'r hyn lleiaf, yn anghyffelyb i'r llall yn y dechreu. Hi a elwir Gwrthymgyrch.

*Engraff.*

Gofal ddyn yn dy ieuenctid am y peth a all dy rwyddo a'th rhyddâu o bob gofal.

Y gair *Gofal,* yn y dechreu, sydd yn arwyddocâu meddwl o flaenllaw, ar geisiaw rheidiau erbyn amser a ddaw; ond yn y diwedd, y mae yr un gair yn arwyddocâu dirfing ofn y meddwl, a chnofa diofalwch.

## XXIX. PENNOD.

*Am Ddadymchweliad.*

DADYMCHWEL yw ffugyr, pan adroddir yr unrhyw sain yn nechreu ac yn nghanol bannod; neu yn nghanol ac yn niwedd bannod; fal hyn:—

*Engraff.*

Y neb a ymddirieto yn ei haeddedigaethau ei hun, ef a somir; a'r neb a somir drwy wybod, ni haeddai obrwyged.

*Arall.*

Gweithred ufydd-dawd a ganfyddir yn oramlwg, ac nid gweithred falch; canys gweithred orchestawl yw: eithr, mal y dywedais, nid gweithred falch; onid gweithred ufydd-dawd.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Gwrawl, tra gwrawl, trugarog wrawl;
Ni bu tra gwrawl, na bai trugarawg. *T. Aled.*

Gwelwch y gair *gwrawl* yn dechreu, a'r unrhyw air yn y canol; dyna ran gyntaf y ffugyr. Gwelwch wedi hyny y gair *trugarawg* yn y canol, ac yn y diwedd; dyna y rhan arall i'r ffugyr. Yr un modd yw—

Meddw, rhyfeddw, rhyfeddawd, meddw;
Ni bu ryfeddw na bai ryfeddawd.
*S. ab Hy. ab Lly. Fychan.*

II.

Dull arall ar Ddadymchweliad y sydd, pan adroddir geiriau wyneb y gwrthwyneb. Gwrthnewid yw ei henw.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Bid iwch chwech bywyd o'ch iaith,
Be delech heb y dalaith:
Bywyd o'ch iaith bid iwch chwech,
Heb y dalaith pe delech.
*Ieu. Deulwyn, i Syr R. ab Thomas.*

*Arall.*

A chael i mi echel mèn:
I Salbri yn nes hwylbren;
Echel mén a chael i mi:
Yn nes hwylbren i Salbri.
*D. ab Edmwnd, i'r T. Salbri hen.*

III.

Dull arall ar Ddadymchweliad y sydd, pan adroddir y cyfan flaenorawg, wrth ei ranau, dan arwyddocâu amrithder yn y rhanau; y rhai hyny a ddosparthwyd, fal hyn:

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Yr ydym ni yn berarwynt Crist, yn y rhai hyn a achubir, ac yn y rhai hyn a gyfrgollir: i'r naill yn arogl angau i angau; i'r lleill yn arogl bywyd i fywyd. 2 Cor. 2. 16.

Perarwynt yw y cyfan; y parthoedd yw y rhai achubedig a'r colledig; yr amrywder yw angau i'r naill, a bywyd i'r lleill.

IV.

Dull arall ar Ddadymchweliad y sydd, pan ddysperthir y rhanau cyn eu datgan; ac yn ol hyny eu

trefnu, a'u mynegu yn ddiamwedd. Hydrefniad yw ei henw.

*Engraff.*

Tri pheth y sydd, y mae llawer yn eu rhybychu: golud, digrifwch, ac anrhydedd. Golud yw mammaeth pechod ac anwiredd; digrifwch yw merch ansyberwyd, yn arwain i resyndawd; anrhydedd yw mam a mammaeth pob gwegi.

*Arall o'r Ysgrythyr Lân.*

Y pedwar hyn bychain ynt a goisel; hagen doethineb ynt; tra doethineb: y mywion, pobl wan, hagen yn parotoi iddynt amser haf; llygod y mynydd, pobl annerthawg, hagen yn gosawd adail eu tai yn y graig; ar y ceiliogod rhedyn nid oes brenin, hagen gwersyllant yn fyddinawg; y gob a ddeil a'u dwylaw, hon sydd yn llysoedd y breninoedd. Diar. 30. 24.

*Rhybudd.*

Wrth ymarfer â'r ddull hon, gwyliwch fod yn fyrgofus, a gollwng heibio ddatgan rhai o'r rhanau a ddysperthwch yn y cyffredinawl: mal y gwnaeth yr un a addawodd ddeongli manau y Credo ac ni ddaeth i'w gof ond naw o honynt.

## XXX. PENNOD.

### *Am Argyfenwad.*

Argyfenw sy ddull, pan ddygwyddo (wrth newidiad arddodiad neu ddisoddiad, ai llythyren, ynte sillaf) gyfnewidiaw yr arwyddocâad.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Carmi ŵyr Hacar. 1 Chron. 2. 7.

Y gair, neu yr henw, *Hacar*, a osodwyd yma yn lle Hacan, hwn oedd ei henw prïawd; ond yr Ysgrythyr Lân, wrth dynu ymaith y llythyren *n*, a rhoddi *r* yn ei lle, a'i henwodd ef Hacar; o achaws mai ef oedd yn anghyttueddu yr oll Israel. Yr un modd y gellir dywedyd, Nid merch, ond march; nid gwledd, ond cledd; nid boneddig, ond penhoeddig.

*Mewn Prydyddiaeth.*

Tomas hên, tô mis Ionawr,
Tywysawg fydd, tau saig fawr.
*D. ab Edmwnd, i'r T. Salbri hên.*

*Arall.*

Arf ddu hir, ni orfydd hon;
Arfer dewr arf fêr dirion. *Ioan Phylip.*

Gorchest y ddull hon sydd, pan ddygwydd iddi syrthio ar wyrthwynebion; sef, o bydd y naill air yn wrthwyneb i'r llall, fal hyn: *Nid medru, ond methu.* Gwelwch fod yma ymgyffelybiad ar eiriau o amryfal a gwrthwynebus arwyddocâad.

## XXXI. PENNOD.

### *Am Amddychwel.*

AMDDYCHWEL liosawdl y sydd, pan newidir yr unrhyw air i amryw ddychweliadau, neu rif, neu genedlryw, neu ddynsawd, neu rithogaeth, neu fodd, neu amser, mal y goddefo yr iaith, ai y cwbl, ai rhai o'r hain.

*Engraff.*

Gwr a wna gwyr yn ei ol;
Gwyr a wna 'r gwr yn wrol. *W. Lleyn.*

*Arall.*

Ni bu o Adda na wybyddoch;
Gwybuost, gwyddost, gwyddoch ddoethineb,
Pan na wedda ateb pan ddywetoch.

Gwelwch yma, y geiriau hyn, *gwybyddoch, gwyddoch, gwybuost*, eu bod hwy yn amryw amseroedd, a dynsodoedd, o'r un rhyw orair. Nid oes arfer o hon wrth newid terfynau, wrth dreiglaw enw cadarn; am nad yw yn dyeithraw yn y diwedd, mal y Lladineg, a'r Gryweg; eithr yn y dechreu, drwy arddodiad, mal yr Hebraeg, neu Arabaeg.

## XXXII. PENNOD.

### *Am Ddullwedd Brawddeg; ac isod am Ddirlais.*

DULLWEDD Brawddeg sy ffugyr, a lluniaith, yn lliwio, ac megis yn rhoddi effaith ar yr holl frawddeg, a'r

synwyr, drwy ymmodfryd goreiriawl; ac ei rhithoedd sydd yn canlyn.

Dirlais yw ffugyr a adnebyddir wrth yr arorair llafarus, neu y rafiodiad; can ys dull ar ymadrawdd yw, pan fo yr areithiwr megis yn dolefu yn uchel, o ran rhyw gynhwrf yn y meddwl, a'r nwydau.

I.

Y ddull gyntaf, pan fo yr areithiwr ar ei ymadrawdd yn rhyfeddu amryw beth; hi a elwir Rhyfeddeb.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

O faint dyfnder golud doethineb, a gwybodaeth Duw! mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd yn anfeidrawl! Rhuf. 11. 33.

*Rhybudd.*

Ni ddylyid arferu y ddull hon, onid pan fo achaws mawr yn peri, a hyny yn anfynych. Ni wedda ei rhoi yn nechreu yr areithwriaeth; na chwaith yn niwedd areithawg ymadrawdd: hon a wedda fod yn oer ac yn araf.

II.

Yr ail ddull sydd, pan fo i'r areithiwr regu, gablu, neu felldigaw rhyw beth, neu ryw ddyn drygionus, wrth dderchafu ei lef. Hi a elwir Rhêg.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Argleddied yr annuwiawl arno; ac eistedded y gwrthwynebwr ar ei deheulaw; pan roddir barn arno, coller ef; a throer ei weddi yn bechawd. Psalm 109. 6.

*Arall.*

Y lle a welwyf yn llyn;
Del ernyw dial arnyn'. *L. Môn.*

*Rhybudd.*

Rhaid yw gochelyd rhag i nebun arferu y ddull hon oddieithr yn erbyn annuwioldeb anoddefadwy; ac nid er galw, anyd i arwyddocâu pa rai y mae Duw yn eu melldigaw.

III.

Y drydedd ddull sydd, pan fo i'r areithiwr ddamunaw rhyw beth ar ei ymadrawdd areithiawl. Hi a elwir Damuneb.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Och Dduw, na thorid ymaith y rhai a'th aflonyddant! Gal. 5. 1.

*Engraff mewn Prydyddiaeth,*

Na boch heb fardd na chwarddwyr;
Na boch gaeth, na neb o'ch gwyr;
Na bo hen anlan anhael;
Na bo ni heb Owain hael! *S. Tudyr.*

IV.

Y bedwaredd ddull sydd, pan fo yr areithiwr ar ymadrawdd yn arddangos galarfryd; neu fod yn dwyn tosturi wrth ryw drueni; ai a fo ynddo ei hun, ynte yn ereill. Hi a elwir Galareb.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

O py rhon i'm pen fod yn ddyfroedd, a'm llygaid yn rheieidr o ddagrau, i wylaw ddydd a nos am gelaneddion merch fy mhobl! Jeremi 9. 1.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Gwae holl gred trymed tromwedd, am erchwy
Y marchawg o'r Gogledd;
Cloi 'r bwrdd; rhoi clai ar y bedd;
Cau Lleweni, cell Wynedd! *T. Aled i Syr T. Salbri.*

*Arall.*

Gwae fi am arglwydd diwaradwydd!
Gwae fi o'r aflwydd ei dramgwyddaw!
Gwae fi o'r golled! gwae fi o'r dynged!
Gwae fi o glywed fod clwyf arnaw!
*Llywarch Offeiriad, i Lywelyn.*

*Rhybudd.*

Rhaid yw gochelyd rhag bod y galarnad nac yn ffugiawl, nac yn gerdoteiawl, nac yn ddiofal, nac yn ddiofydd; nid amgen, pan fo y galar yn fawr a'r achos yn fychan; mal y gwna plantos, wrth wylaw yn hidl am golli y tlysyn lleiaf; neu ynte, pan fo y galarnad yn llai nog yw yr achaws; mal y gwna dynion chwelan diofal.

V.

Yn bummed, pan fo i'r areithiwr geisio cannorthwy drwy ymddirgwyn. Hi a elwir Gafargwyn.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn.*

Paham y sefi can belled oddiwrthym, Arglwydd, ac yr ymguddi yn amser cymhelri! Psalm 10. 1.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Och, wyr tost, nid chware teg,
Ofyn gŵr a fai'n gareg. *Edm. Prys.*

VI.

Y chweched ddull sydd, pan fo yr areithiwr yn bendithio ar ei ymadrawdd, ryw ddynsawd, am ei ddaioni. Hi a elwir Hyddith.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Bendigedig yw y gweision hyn, pan ddelo eu harglwydd, a geffir yn effraw! Luc 12. 37.

*Mewn Prydyddiaeth;*

Duw (a'r grôg enwog, iawnwaith d'wysawg,
At Iesu mae'n gobaith,)
Gad isod un gwedi saith
Gŵr, a dano gred unwaith! *L. Daron.*

*Arall.*

Bendith tra fo gwlith yn y glyn, a rois
I Rys yn y Tywyn;
Tra fo'r muroedd lle'r oeddyn',
Na main, neu bridd y mewn bryn. *D. Nanmor.*

VII.

Y seithfed ddull y sydd, pan fo i'r areithiwr roddi llw ar ei ymadrawdd, er mwyn cadarnâu y peth sydd yn gofyn gwiwogaeth dystion. Hi a elwir Llyfeb.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn;*

Yr wyf fi yn galw nef a daear heddyw yn eich erbyn, dyfethir chwi o'r tir, yr un ydd ych yn myned i'w feddiannu dros yr Iorddonen! Deut. 4. 20.

*Arall.*

Duw sydd yn dyst i mi, yr hwn ydd wyf yn ei wasanaethu yn fy ysbryd! Rhuf. 1. 9.

*Rhybudd.*

Gochelwch ar ymadrawdd dyngu i ddim ond i'r Creawdwr; na thyngu chwaith i gyflawni anuniondeb; na thyngu yn orchwidr, neu yn ddihamddenus; na thyngu i dwyllaw nebun; na thyngu ar ymadrawdd sathredig; na mynych arfer llw ar ymadrawdd areithiawl.

VIII.

Yr wythfed ddull y sydd, pan fo yr areithiwr, yn ol adrawdd, neu wedi cwplâu rhyw weithred, yn gosawd brawddeg yn gorymddwyn ei chloedigaeth. Hi a elwir Arlef.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân; yn gyntaf, i gloi ymadrawdd adroddedig.*

Felly mor gadarn y tyfodd gair Duw, ac yr ymgryfâodd! Act. 19. 20.

*Yn ail, i gloi araeth brifadwy, fal hyn:*

Wele, nyni a adawsom bob peth, ac a'th ddylynasom di! Mat. 19. 27.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Gwell i un a gyll annerch
Gludo main no gwylied merch:
Gwell, neu ddeuwell i ddiwair,
Glywed poen gwaelawd y pair.
Y gauafwynt a gefais
A dry fy mhwynt drwy fy mhais,
Ac o wenwyn ac anwyd,
Agos i mi gasâu 'mwyd.
Dydd a nos nid oeddwn i
Draw unawr heb drueni!
O! cael dîg am goeliaw dyn;
Cael crwydr ceiliawg rhedyn;
Cael hir nych; culhau'r nos;
Cael mawr wg; cael marw agos;
Cael ofn draw, coelfain a drig;
Clywed cur, fal clud cerig;
Coelio a fu, er celu ei fod,
Calon echdoe cael nychdod:
Bid cariad, er bod cerydd,
Be rhon' oll, a byrhau 'nydd! *Gr. ab Efan.*

Y mae y ddull hon yn gwasanaethu yn hylwydd i arddangos cydfryd i beri rhyfeddu am ryw beth, neu i gymhènu yr araeth, neu y weithred,

IX.

Y nawfed dull a elwir Eofneg, sef pan fo yr areithiwr yn mynegi yn hydraeth ar araeth hyfebawg. Am hyny fo ellir galw y ddull hon yn gennad yr ymadrawdd; oblegid wrth y ddull hon yr hysbysir i freninoedd ac i wŷr uchelradd, megis swyddogion gorseddawl, beth y bo cydwybod a chyfiawnder yn eirioli arnynt.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Adolwyn na chymmerwch ddynsawd nebun; a cher bron dyn nid arferaf o ragymadrawdd. Nid wyf fi yn arfer cyfenwi; canys ychydigyn pe yd arferwn, fo ym dygai y neb a'm gwnaeth i. Iob 32. 21, 22.

Yn y geiriau hyn, mae Iob yn hydraeth ac yn eofn iawn yn dangos ei feddwl yn ddiragrith.

*Arall.*

Ai pregethu yr wyf athrawiaeth dynion, ai eiddo Duw? Ai ceisiaw yr wyf ryngu bodd dynion? Canys os rhyngwn fodd i ddynion, nis byddwn wâs Crist. Gal. 1. 10.

Wele ddangos pa fodd y mae i weision Crist ymddwyn tu ag at y byd; sef dangos yn hyf, areithiaw yn eofn, ceryddu yn ddirdost, a dywedyd yn ddiragrith i'r bydolion, mai poen fydd diwedd eu paradwys.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Cler o gamarfer ymarferant:
Cathlau anneddfol yw eu moliant;
Cerdd oriawg ddifan a ddadganant;
Celwydd bob amser a arferant;
Gwir union ddynion a ddyfalant;
Y nos y meddwant; dydd y cysgant;
Yn segur heb lafur ymborthant;
Gofalau angau nis pryderant. *Taliesin.*

Dyma areithiaw yn ddiragrith, yn erbyn y prydyddion, a oeddent yn camarfer eu galwedigaeth, ac yn dirywiaw oddiwrth reoledigaethau, y rhai hyn a fuasai yn hywedd eu canlyn, lleswedd o eu gwneuthur, a rhinwedd o eu harferu.

*Rhybudd.*

Ni wedda y ddull hon ar ymadrawdd, onid i ŵr doeth a fedr ei gosawd mewn ban a modd cydweddawl, er mwyn gochelyd hyfder anwybodus, neu anfympwy,

## XXXIII. PENNOD.

### *Am Ailgywair*

Ailgywair yw ffugyr lunweddawl, yn galw gair yn ei ol a ddywedbwyd unwaith, er mwyn dywedyd yn well, neu yn dymhoreiddiach. Mae y ddull hon yn goamlâu yr araeth, drwy osawd geiriau nerthocach ynddi.

I.

Weithiau fo ailgyweirir y gair blaenorawg, fal hyn:—

Nyni a ddygasom gar eich bron chwi, i gael barn, nid lleidr, eithr herwr angerddawl; nid godinebwr, eithr yscyriwr pob diweirdeb; nid llanherwr, eithr gelyn glas pob crefydd dduwiawl; nid ymrysonwr, eithr llawrydd angharddyn.

Gwelwch yma gyweiriaw y gair o flaenllaw, er mwyn egluraw yn ddilysiach, ac er dangos yn brysurach, ac â llawn awydd, ai cyflwr rhinweddawl, i amddiffyn un, ynte cyflwr wydus, i ddirymgwyn yn erbyn y cyfryw.

II.

Weithiau eraill fo ailgyweirir y gair yn ol ddywedyd, ac nid ymlaen.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lan, fal hyn:*

Eglur ydych fod yn llythyr Crist, a wasogwyd genym ni, ac a ysgrifenwyd nid â du, namyn âg Yspryd Duw; nid yn llechi main, eithr yn nghnawdawl lechi y galon. 2 Cor. 3. 3.

Wele, mae yr apostol yn cyweiriaw y geiriau hein, nid â du, wrth roi y geiriau sydd yn canlyn; sef, namyn ag Ysbryd Duw.

*Arall.*

Ond gwedi i chwi adnabod Duw; neu yn hytrach, yn ol i Dduw eich adnabod chwi. Gal. 4. 9.

*Arall.*

Am dy weithred gywilyddus, pa fodd yth galwaf? Ai dihirwr? Nac e, anifel. Ai anifel? Nac e, cythraul; am y mawrddrwg a'r methrin sydd ynot.

Gwelwch yma gyweiriaw y gair yn ol llaw, er mwyn peri i'r gwrandawwyr gofiaw yn well, a gwrandaw yn ddyfalach, beth sydd i ganlyn, a pheth yw ei amcan wrth fod yn annyben.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Nid rhyw ganad tragywydd,
Ond â Duw newidio dydd;
Ni cheir mach i ŵr am oes;
Ni bydd un heb ddwy einioes;
Ni bu farw tarw anturiaeth;
Na fu ddim; i'r nef ydd aeth.

*T. Aled, i T. Salbri Hen.*

Syna, mal y mae y prydydd yn dangos, nad oes meichiau rhag marw: ond y mae ef yn cyweiriaw hyny yn ol, ac yn dangos, nad marw a fu, eithr byw yn y nefoedd.

*Rhybudd.*

Rhaid i'r gair cyweiriawl, a roddir yn y ddull hon, fod yn rymusach no'r gair annyben; sef a fo yn blaenori, neu yr un a gyweirir yn olaf. Canys anynadrwydd mawr fyddai i'r areithiwr wrthod y gair cryfraf, i gyfleu y gwanaf; ac ynfydrwydd a fyddai rhoi geiriau diffaith yn yr araeth, er mwyn ei gwellâu, neu ei chyweiriaw.

III.

Dull arall ar ailgywair y sy, pan osodir gair cyffredinawl o'r blaen, a gwedi hyny dyeithraw rhan arall allan o hono, neu ryw amgenedigaeth.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lan.*

Yr ydys yn gorthrymu o bob parth, er hyny nid mewn cyfyngder: ydd ydym mewn cyfyng-gyngor, er hyny nid yn ddigyngor: ydd ys yn ein hymlid; ac ni ein gadewir: ydd ym wedi ein taflu i lawr; eithr ni ein coller. 2 Cor. 4. 8, 9.

*Taflu i lawr* yw y cyffredin; y gair *collir* yw rhân, hon a ddigerthwyd o'r llall, oedd y cyffredin.

*Arall.*

Gorsedd y brenin sydd ogoneddfawr; eithr yn newidadwy: swyddogaethau sydd felus; er hyny yn enbydus: cyfoeth sy dda; eithr yn llawn cymelcid: boddion yw ffrwythoedd y bywyd; er hyny y maent yn achosion gresyndod a thrueni.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Bwrier a weuer o wawd,
A'i deuflaen ar y daflawd;
Eithr pensaer yr ieithoedd,
Eithr pe byw athraw pawb oedd.

*Iolo Goch, i D. ab Gwilym.*

*Rhybudd.*

Gochelwch fod y ddyeithreb yn rhy gyfrywiawl; megys pe dywedai un, Yr ym mewn tylodi; eithr heb arnom eisiau dim. Nedwch i'r ddyeithreb fod yn rhy wan; megys pei dywedwn, Melus yw urddas; etwa yr ydys yn dal gwg iddo. Nid yw y ddyeithreb yma yn lleiâu dim ar y glod uchod.

## XXXIV. PENNOD.

*Am Attaliaith.*

ATTALIAITH yw ffugyr ymadrawdd, pan fo yr areithiwr, o ethryb rhyw nwydau, megys ofn, digllonrwydd, galar, neu wylder, yn celu rhan o'r ymadrawdd, cyn diweddu ohono y cwbl; fal hyn:—

Dywedaf y peth sydd yn fy meddwl; ond rhag annog a fai pellach.

Yma y gwelwch gychwyn o'r araeth o'r blaen, a darfod celu peth o honi, o achaws y nwyd oedd yn anach ei rhwydd-deb.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Pa llai hwp y llaw hapus;
Oes bren yw, nis briwai'n us?
Oes gwaew aruthr, nis gwyrych?
Aml oedd gamp ymeulydd gwych.

*T. Aled, i I. Salbri*

Rhaid yw deall, bod yr ateb i'r gofyniad yma yn guddiedig, i'w ddeall wrth synwyr y geiriau.

*Arall.*

Pwy yw iustus Powysdir?
Powys yn hai heb Sion hir. *L. Mon.*

Gwelwch yma attal rhan o'r ymadrawdd yn ol heb ei dywedyd; canys deall ydd ys, Powys aeth yn hai.

## XXXV. PENNOD.

### *Am Gyfagwedd.*

Cyfagwedd yw ffurf ymadrawdd, pan fo yr areithiwr yn amliaws, neu yn carneddu ynghyd lawer o eiriau, yn arwyddocâu amryfal bethau, o'r unrhyw anian.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn;*

Gweithredoedd y cnawd sydd amlwg: yr hain, torpriodas, godineb, aflendid, nwyfiant, delw-addoliad, swynaw, casineb, cynhenau, gwynfydau, llîd, ymgeiniau, terfysgau, lladdiadau, meddwdawd, glythineb, a'r cyffelyb. Gal. 5. 19, 20, 21.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Haelder, dewrder, doethder, dysg,
Hynod wedd, hyn yw d' addysg.
*I. Mawddwy, i I. Salbri.*

*Arall.*

Pôr clôd, nôd Nudd, budd byddin,
Pôst côst câd, par treiddiad trîn.
*I. Gruff. ab Crach o Leyn.*

Gwelwch yma gwplysu llawer o eiriau ynghyd, a'u llymglymu; a'r cyffelyb noturiaeth ar y ddull hon, sydd yn debyg mewn gogan, i fynych ddyrnodau mewn rhyfel; eithr mewn clôd a mawl, tebyg yw i gawod gurwlawiawg, pan fyddai raid wrthi; sef yn amser crin-sych y ddaear.

II.

Dull arall ar gyfagwedd y sydd, pan fwrir llawer o eiriau ynghyd, mal ceryg mewn carnedd, yn ddigyswllt; a'r heini yn arwyddocâu amryw bethau, o amryw anian. Digyswllt y gelwir hi.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Merched, gwragedd, bonedd byd,
Meibion, plant, ieuainc, mebyd. *Ioan Cent.*

*Arall.*

Dwr, tân, awyr, sêr, terra, a main,
A wnaeth un mab Maria;
Angelion nef, plant Efa,
Gwyllt, gwâr, gwellt, gwydd, nos, dydd da.
*D. ab Edmwnd.*

Gwelwch yma garneddu llawer o eiriau o amryw noturiaeth; ac wrth hyny yn wrthwyneb i'r ddull gyntaf.

## XXXVI. PENNOD.

### *Am Ddadymchweliad.*

DADYMCHWELYD yw ffugyr, pan ddygwyddo i'r areithiwr droi yn ddisymwth o'i ymadrawdd blaenorawl i ymadrawdd arall; sef, yn ol darfod iddo ymddyddan am ryw un, neu ryw beth, y mae yn ddiattreg yn ysmudaw o'r trydydd dynsawd i'r ail.

Fo arferir y ddull hon yn amryw wedd.

I.

Yn gyntaf, pan ddychwelir yr araeth at Dduw, yr hyn nid oedd arfaethus yn y dechreuad.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Yr anoddyn a'u cuddiodd hwynt: hwy a ddisgynasant i'r dyfnderoedd megys careg. Dy ddeheulaw, O Arglwydd, a fawrygodd ei hunan i mi drwy wyrth: â'th ddeheulaw, O Arglwydd, tòraist y gelyn. Exod. 15. 5, 6.

Yma, gwedi i Foesen ddangos darfod i'r dyfnfor sy gynlun, foddi yr Aiphtiaid, y mae yn troi eilchwyl yn amlwys, ac yn dadymchwelyd ei ymadrawdd at Dduw, megys pe bai yn ymchwedleuaw âg ef.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Ni roe un-wraig arian-rodd,
Draw i'n rhaid, draian ei rhodd;
Crist Iesu, croesiad asen,
Clyw air a chwyn cleiriach hen. *I. Tudyr.*

II.

Weithiau fo wrthymchwelir yr araeth at ryw ddyn arall.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân.*

Y llw a dyngodd wrth ein tad Abraham; nid amgen, bod iddo ganiatâu i ni gael ymwared oddiwrth ddwylaw ein gelynion; a'i wasanaethu yn ddiofn, holl ddyddiau ein bywyd, mewn santeiddrwydd, ac iawnder, gar ei fron ef. A thithau fab a'th elwir yn brophwyd y Goruchaf; canys ti a ei o flaen wyneb yr Arglwydd i barotoi ei ffyrdd ef; ac i roddi gwybyddiaeth o iechyd i'w bobl ef, gan faddeuant o'u pechodau. Luc 1. 73, 74.

Gwelwch yma, yn ol cychwyn o'r araeth, gan ddatgan clod a mawr-serch Duw, yn ei roddedigion, ddadymchwelyd a throi yr araeth at y dyn bach, pan enwaedıwyd arno.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Harri lân hir lawenydd,
Yn un a'n rhoes ninau 'n rhydd;
I Gymru da fu hyd fedd
Goroni 'r gŵr o Wynedd.
Am roi 'n nes Gymru nasiwn,
A'r ferch o Yorc ar fraich hwn.
O'u deu-gorph urddedig-wych
Y barnwn gael brenin gwych,
Harri wythfed anreith-faes,
A'i on-waew mellt yn y maes.
A merch i hwn (mor wych yw!)
Y sydd frenines heddyw.
A theiroes fo'ch einioes chwi,
Aur ei choron, ferch Harri.
O chym'raist Loegr a Chymru,
Elsbeth, d'etifeddiaeth fu,
Holl Ffrainc, a'i thalfainc, a'i thir,
A'i choron uwch a yrir.
I'r ystâd gras Duw ydwyd:
Arwydd nef i'r Werddon wyd.
Duw â'i wyrth a'th diwarthodd:
Ys da ferch, heuddaist ei fodd.
Ys teg iawn, ys da ganwyll,
Ystryw ffydd Hester, a'i phwyll;
A doeth wyd, (Duw i'th adael!)
Os doeth i'w hoes Iwdith hael.
Mirein-wawr haul morwynion:
Marsia wyd am yr oes hon;
Seren wych, nid un sîr neb,
Susanna rasus wyneb. *I. Tudyr.*

Wele yn ol i'r prydydd ddatgau ar ymadrawdd riniach ein brenines; y mae ef yn dadymchwelyd, ac megys yn ymddyddan âg hi ei hun ar ei araeth, gan argan ddyledus ganmoliant iddi.

III.

Weithiau arall fo wrthymchwelir yr araeth at ryw beth annynsodawl, mal pei yn ddynsawd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn*:

Prophwydlwyth Tyrus: Udwch, chwi longau Tarshish; gan ddarfod ei hanialu gan y teulu; gan ddyfodiaid, gan wlad Chittim, y datguddir yn ei erbyn. Isaiah 23. 1.

Yma mae y prophwyd yn areithiaw wrth longau Tyrus, mal pei baent yn ddynsodion rhesymawl, ac hwynt yn fudiaid dieneidiawg.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Tydi 'r ddaiar wâr, irad it hyny,
Pan i'm tyni attad;
I'th fynwes, diwres o 'stâd,
Yn y diwedd 'r wy'n dawad.

Doethym (annoeth fym) o'th fol yn briddell,
Yn bruddaidd anianol;
Ac i'r un fan gwyro'n f'ol,
Y tariaf yn noturiol.

Oni ddel, trafel trefi, cryn wybren,
Corn Abriel i'm codi;
Ac yno caf ddigoni,
Iechyd hir, yn iach i ti. *I. Tudyr.*

Gwelwch fod y prydydd yn areithiaw wrth y ddaiar, hon nid yw ddynsawd, amyn elfen.

---

## XXXVII. PENNOD.

### *Am Ddynsawdwedd.*

DYNSAWDWEDD yw ffugyr, pan fo yr areithiwr ar ansawddlun yn dwyn i mewn ar ymadrawdd, mal pei rhyw un arall yn ymddyddan. Y ddull hon sy ddeufathawl: anmherffaith a pherffaith.

I.

Anmherffaith yw, sef pan adgynnyrchir ymadrawdd rhyw un arall yn lled-ysgafn, ac yn lled-brin.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Ond o daw biliaw, a barn,
Na chwedl rhwng gwan a chadarn;
Y gwan a ofyn o gur,
O Dduw Tad, b'le'dd ai Tudur! *W. Lleyn.*

Wele y prydydd yn dwyn i mewn mal pei ymadrawdd y gwr gwan, yn ymofyn am Dudur: nid ar gyflawn ymadrawdd, neu mal pei bai hyny yn gwbl ei feddwl, eithr yn obrin, ac yn lled-ysgafn.

II.

Perffaith ddynsodlun sy, pan fo yr areithiwr mal pei yn dwyn i mewn, ar araeth, gwbl o ymadrawdd dynsawd arall; neu yntau wyddsodi yn adgynnyrchiawl, megys pei yn ymddyddan rhyw beth arall.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Pan gasglwyd y dyfroedd drwy chwythawd dy ffroenau di, hwy a safasant mal cwmwl; yr anoddynoedd a gyd ymwasgasant yn nghalon y môr: y gelyn a ddywedasai, Mi a erlynaf; mi a orddiweddaf; mi a ranaf y praidd; fo a gyflenwir fy enaid; mi a ddiweiniaf fy nghledd; fy llaw a'u hawloga hwynt i etifeddiaeth. Exod. 15. 8, 9.

Yma gwelwch fod Moesen yn dwyn yn mysg ei ymadroddion, ac yn nghanol ei eiriau ei hun, megys pei bai y gelyn yn dywedyd, yn datgan, neu yn ymadroddi ei amcan yn erbyn plant yr Israel.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Od aed, fal y dywedant,
I'r eglwys wen arogl sant;
Er Duw, o daethost i'r daith,
Adolwg, dyred eilwaith.
Dyred, ni feiddiai daerion
Dwtsio'r sir, be doet, syr Sion.
Fy meibion, anwylion wyr,
I'm bro ydych, a'm brodyr,
A'm hwyrion cryfion, a'm crêd,
A mwy orchest, fy merched,
A'm cymdeithion mwynion maeth,
A'm ceraint, lle mâg hiraeth:
Troes Duw i'wch fâr, tristwch fu,
Treiwch gwyn, trowch i ganu.
Diolchwch, gwyliwch dan gof,
Ddaed ei râs i Dduw drosof.
Am fy nwyn (lle mae'n iawnach)
O'r bywyd byr, a'r byd bach.
Marchawg o waed, meirch a gwn,
A swyddwr i'm prins oeddwn;
Heddyw marchawg enwawg wyf,
Gorau 'stad, i Grist ydwyf.

Newidiais fyd, iawn ydoedd;
Newid da i'm enaid oedd.
Dyl ar bob dyn, dychryn daith,
A'r aned, yw marw unwaith.
Oes un gŵr a welsom gynt,
Yma 'rioed nad marw ydynt?
Y gronyn hedyn hoewdeg,
A fwrir yn y tîr têg;
Nid egina, da yw'r daith,
Y grawn nes llygru unwaith;
Ac un llygriad â hadyd
Yw dynion beilchion y byd.
Ac egino gogoniant,
Ys da nerth, drwy Grist a wnant.
O mynwch gael, heb ffaelio,
Y wledd fawr, a arlwyodd fo;
Crynwch hwnt a'ch crwyn i'ch hoes:
Crinion yw ceinciau'r einioes.
Rhowch eich gofal, bob calon,
Ar Grist fry, a'r groes-waed fron;
Byddwch, cofiwch, wyr cyfiawn;
Ofnwch Dduw, a mynwch ddawn.
Yno y dowch, bob un a dau,
Oll i'r fan lle'r wyf innau.
Lle nid oes na garwloes gur,
Na dïaledd, na dolur,
Nac erlid, llid, nac oerloes,
Na dig, na galar, nid oes,
Na newyn, chwerw-ddyn, na chwyn,
Na syched, na nôs achwyn.
A byw yn nef bawb yn iefanc,
Heb dreio oes, a heb dranc.
Boddhewch bawb, byddwch bybyr,
Ac ewch yn iach, gwychion wyr!
Y gwir ddoeth farchog urddol,
Yn iach i wr yn eich ol.

*I. Tudyr, yn dwyn malpei y marchog I. Salbri yn cynghori ei blant.*

Amlwg yma yw, darfod rhoddi i'r peth marwawl mud, y peth sydd yn cyfanu â thafodiawg. A chyd bo y ddull hon tra arferedig gan feirdd a phrydyddion; etto nid anllai ymarfer areithwyr a chwedleuwyr goamlddoeth ohoni, nog hwyntau.

### *Rhybudd.*

Rhaid yw edrych yn ofalus ar fod rhyw achaws gymhellig i beri arfer y ddull hon; yno rhaid yw ei gosawd yn gyflym ar arfaeth; ac yn ddiweddaf, rhaid yw edrych ar ei bod yn fympwyawl i foddâu.

## XXXVIII. PENNOD.

*Am Betrusad.*

Amheuedigaeth, neu betrusad, yw ffugyr arluniawg, yn gofyn cynghor ar araeth betrusiawg; nid i arall, namyn iddo ei hun. Canys yn ôl y ddull hon y dygwydd i'r ymadroddwr ddwyn ar ddeall, ei fod yn amheu, o ran amledigaeth, yn mha le y dechreu; neu beth a ddywed mewn rhyw beth dyeithr, petrusawg.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Dy wybodaeth di sy ryfeddach nog y gallwyf ei thwyllo: mae hi yn uchelawg, ni allaf mo ei gornerthu. I ba le y ffoaf oddiwrth dy Ysbryd? neu oddiwrth dy wyneb? Os esgynaf i'r nefoedd; yno yr ydwyd: pei gwnawn fy ngwely yn y beddle; syna cynnrychiawl wyd: pe cymmerwn adenydd hupynt y dydd, ar fedr driganneddu yn eithafedd y môr; yno hefyd dy law a'm tywysai, a'th ddeheulaw a gymmerai afael ynof: pe dywedwn, y tywyllwg mal hwyrnos a'm hamgornant; yno byddai y nôs yn oleuni yn fy amgylch. Psalm 139. 6, 7, 8, 9.

Wele y prophwyd yn ymddyddan ag ef ei hun, ac megys yn ymbenbleth mewn cyfyngdra meddwl, wrth ystyriaw mawredd Duw, a'i farnau anniancadwy.

*Mewn Prydyddiaeth.*

Doed aliwns, nis didolir;
O dont, pwy a'u lludd i dir?
Llusgent wyr, llosgent eu tai;
Lluddiwyd y gwr a'u lladdai. *G. Glyn.*

*Rhybudd.*

Y neb a arfero y ddull hon ar araeth gampusgain, yn gyntaf na ddyged i mewn, ar areithwriaeth, nifer mwy o amheuedigaethau, nog a fyddo rheidiawl i hysbysu goramledd, neu ryfeddodaeth; yn nesaf at hyny, gocheled amheu lle ni bo ond ychydig achaws yn peri; ac yn drydydd, gwylied roddi argoel anwybyddiaeth, gan amheu lle ni bo dir iddo: ac wrth hyny dangos ei hunan ai yn anwybodus, ai yn abyrgofus.

## XXXIX. PENNOD.

### *Am Ogylchiaith.*

GOGYLCHIAITH sy ffugyr drawsoreuraid, trwsiad godidawg, rhyw wych dacliad â lliaws o amryw eiriau perthynasawl, yn estyn chwedl byr o hyd y bwa, yr hwn a ellid ei draethu ar ddeuair neu dri.

I.

Yn gyntaf, wrth ddeongliad gair, neu ei dadogaeth; megys pe dywedwn yn lle y gair philosophydd, fod un yn caru doethineb; neu ynte pei dywedwn yn lle Cristion, fod un yn addolwr Crist.

II.

Yn ail, wrth ddysgrifiad; sef pan fo i'r areithiwr ddysweddu rhyw beth âg argoelion nodadwy; megys pei dywedai un am ddigllonedd, ei fod yn frydni y galon, yn gwneuthyd yr wyll yn lâs, y llygaid yn danllyd, a'r corph yn grynllyd.

III.

Yn drydydd, wrth derfynu anian a noturiaeth rhyw beth: megys pei dywedai un am ddyn, ei fod yn greadur bywiawl, rhesymawl; neu am ormesdeyrn, ei fod yn ordrechwr cyfreithiau a rhyddid y wladwriaeth.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Ffydd yw ffyrfder y pethau a obeithir, ac egluriad ar y pethau nis gwelir. Heb. 11. 1.

*Engraff mewn Prydyddiaeth,*

Gofalu heb dŷ, heb dâl;
Gwanâu 'r wyf gan hir ofal. *T. Aled.*

*Rhybudd.*

Rhaid i'r neb a arfero y ddull hon fod yn dda ei greth, a'i gyngyd, rhag tynu yr ogylchiaith yn rhy hir: os bei hyny, diau byddai yr araeth yn ddiffrwyth; gan nad yw y ddull hon yn dodrefnu yr araeth â defnydd newydd; eithr âg amryw eiriau, i lwyddaw yr ymadroddiaith, wrth eu cymmeryd yn arbedus.

## XL. PENNOD.

### *Am Globyniaeth.*

CLOBYNIAETH yw ffugyr, pan fo yr areithiwr yn dwyn i mewn, ar ei ymadrawdd, amryfal ddysgrifiaeth i'r un peth: megys pei dywedwn fal hyn:

Dyn yw engraff o wendid, delw anwadalwch, cribddail amser, alldud trueni, llestr ainc annigonadwy, a chastell adail disymwth.

### *Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Dyn yw cnawd, gwynt yn myned heb ddyfod drachefn. Psalm 78. 39. Glaswellt a dorir, a phryfed y ddaear. 1 Maccab. 2. 62.

### *Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Dyro ysgien dros gywydd,
Darn der o haiarn drwy hydd;
Cyllell garw isgell, groesgam,
Cyfled ei merched â'i mam.
Asgell wydr, ys gwell edrych
Arni, nog ar dri o'r drych;
Teneu yw ei chorph, tew 'n ei chil,
A'i gogwydd ar ei gwegil;
Yn grwm iawn, yn grymanaidd,
Yn blyg, fal ewin y blaidd;
Yn llafn gwiw, yn llai ofn gŵr,
Unlliw â'r haul yn llaw yr heliwr:
Yn llem ar ei hesgemydd,
Yn hir i gymynu hydd. *G. Glyn.*

### *Arall.*

Sion Eutun sy'n damunaw
Llun dôl ŷch, llonaid ei law;
Clau gorn, cig hely a gâr,
Clariwn helgwn i haelgar;
Corn mawr ymysg y cyrn mân,
Cafn crwm megis cefn cryman;
Coedwr â'i waedd yn cadw'r wyn;
Cloch ceirw, haner cylch cerwyn;
Minci anadl min cynnydd,
Mal tarth pan fai'n ymlid hydd;
Melus yw yn malu sain,
Megys bol enfys blaenfain;
Bwmbard i wr â'i bumbys,
Bric llef hyd ar barc y llŷs;
Bwa genau bygunad;
Bon trwm â'i ben tua'r iâd;
Gwiber dolef ac ubain,
A genau mawr ac un main. *G. Glyn, i gorn huadwr.*

## XLI. PENNOD.

*Am Gyffrediaeth.*

CYFFREDIAETH yw ffugyr lunweddawl, pan fo yr areithiwr, ar ei ymadroddiaith, yn gofyn cynghor i eraill; naill ai i'r gwrthbleidiawg, ai ynte i'r ynad, beth a wneir rhag llaw; neu beth a ddylesid ei wneuthyd.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn.*

Yno y dywedodd Iehwda, Beth a ddywedwn wrth yr arglwydd? beth a ddyhebwn? neu pa wedd y glanâwn ein hunain? Gen. 44. 16.

Gwelwch fod Iehwda mewn cyfyngder meddwl, gan orbicrwydd cydwybod, o achaws y trychineb a wnaethai ef a'i frodyr, wrth werthu Ioseph ei frawd i'r Ismaeliaid; ac herwydd hyny, y mae ef yma yn adrawdd wrthynt hwy yn gynghor-gais, beth a wneynt rhagllaw.

*Arall.*

Nid yw tywysogion yn ofn i weithredoedd da, ond i'r rhai drwg. A fyni di nad ofnych yr awdurdawd? gwna ddaioni, a chei foliant gantho. Rhuf. 13. 3.

Yma y mae yr apostol yn ymgynghori â'r gyffredineb, pwy wedd y mae i ddyn ymddwyn tuagat y swyddog; a pha fodd y daw lles iddo o hyny.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Od arwedda d'arwyddion,  
Ai gwaeth fy mhenaeth i'm hòn,  
No dwyn obry gwedy gwîn,  
Ar fy mron arfau 'm mrenin;  
Os dy borth a'th cynnorthwy  
A gâf, ni ddymunaf mwy.

*G. Glyn, i Wilym Fychan o Raglan.*

*Rhybudd.*

Y neb a arfero y ddull hon ar ymadrawdd, edryched, yn gyntaf, ar fod ei achaws a'i arfaeth yn dda, ac ar dir iach, mal nas gallo y gwrthnysig ei wadu, na'r ynad feiaw arno, heb ledorthrech cyfiawnder, a gwyraw rhaithsawd uniondeb a gwirionedd.

## XLII. PENNOD.

### *Am Dansangiad.*

TANSANGIAD, neu flaenoriaeth, yw ffugyr unweddawl, pan fo yr areithiwr yn gweled o flaen llaw, beth a ellid ei fwrw yn ei erbyn i'w friwaw, gan ddirymiaw a dinerthu, cyn cael o'r cas-ddyn, neu y gwrthbleidiawg, amser neu hamdden i fwrw hyny yn ei ddysgl.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn;*

Dywedi gan hyny wrthyf, Paham y mae ef yn cwynaw? canys pwy a wrthladdodd ei ewyllys ef? Eithr, O ddyn, pwy wyt ti, a ymddadleui yn erbyn Duw? A ddywed y peth ffurfedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Paham ym gwnaethost fal hyn? Rhuf. 9. 20.

Gwelwch yma fod Pawl yr apostol yn rhagafaelu yn hyddoeth ar reswm y dyn cnawdawl, gan atteb iddi yn ddiwrthladd.

*Arall.*

E ddywed rhyw un, Pa fodd y cyfodir y meirw? A pha ryw gorph y deuant allan? O ynfyd! y peth ydd wyd yn ei heu, ni fywocêir, oddieithr iddo farw. 1 Cor. 15. 35, 36.

Wele yr apostol yn dwyn ar ddeall i'r sawl ni choelient y deuai cyfodiedigaeth y meirw, drwy ragosawd eu anmhwyllfryd, nad iawn oedd iddynt amheu hyny, ar gyffelybrwydd trefn anian noturiawl a gweladwy.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

O dywedi (beth nid ydwyf)
Bost yr iaith, mai bostiwr wyf;
Ni leddir, o rad taladwy,
Y gair mawr ond â gair mwy.

*Edm. Prys, i S. Phylip.*

*Rhybudd.*

Rhaid yw gochelyd, yn y ddull hon, rhag dau beth; yn gyntaf, rhag rhoi ar araeth, neu mewn ymadrawdd, arfwriadau rhodresgar a gwagaidd; yn ail, rhag bod o'r attebion yn wan, ac yn annigonawl; canys pei hyny, gwanychai ei achaws ei hun, ac a nerthocai fwriad y gwrthhawlydd.

II.

Dull arall ar dansangiad sydd, pan fo yr areithiwr yn rhoi ateb i'r peth a ofynodd ef ei hun; ac hi a elwir Lledymddwyn.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn:*

Pwy a warthebaist? pwy a geblaist? yn erbyn pwy y dodaist dy lais? Yn ddiau, di a dderchefaist dy lygaid yn erbyn Sant yr Israel. Isaiah 37. 23.

Gwelwch fod y prophwyd yn gofyn, mal pei, i Rabsaceh, ac yn adliwiaw iddo wneuthyd y camwedd trahauslawn a wneuthasai â Duw.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Pa welliant, diluddiant lwyth,
I ddyn iefanc, ffrom lanc ffraeth?
Trwy ochel diogeliaith,
Yn ol gair Duw, diwair doeth;
Mi a'th geisiaf dan f'ais yn fyw,
A'm calon loewfron yn lew;
Na âd i mi ymadaw
A'th gorch'mynion gwychion gwiw.

*G. Ganoldref, yn odidawg.*

*Arall.*

Ior odidoca',
Pwy a breswyla
Dy babell bêna'
Beunydd? Clyw,

Pwy sydd mor ddedwydd
A bod wladychydd
Yn dy lwys fynydd,
F'anwyl Dduw?

Sawl sydd o'i fywyd
Yn ddifrycheulyd,
Ac sydd yn gwneuthyd
Uniondeb;

Sawl a fynago
Y gwir heb dwyllo,
I orfod gwrido
Mo'i wyneb.

Sawl nis adroddan'
Ar floesg dafodan
Hort, ac ni ddrygan'
Gymydawg;

Sawl ni châr wrando,
Heb wir gythruddo,
Chwedlau amdano
Celwyddawg;

Sawl a ddystreulo
Goegun drwy gyffro
Heb ganmawl ganddo
Mo'r camwedd;

Sawl ag a warian'
Ar bawb a ofnan'
Yr Ior, heb ryngian,
Anrhydedd;

Sawl ag nis tyngo
Ond a all wirio,
Er a ddygwyddo
O golled;

Sawl sydd â'i agwedd
Yn syth heb wyredd,
A'i air yn unwedd
A'i weithred;

Sawl ni rydd ariant
Byth ar eu mwyniant
Fal, ac y lluddiant
Gymydawg;

Sawl ni fradychan'
Y gwirion truan,
Er dim a gaffan'
Yn euawg;

Sawl yn ddiffuant
Hyn a gyflawnant,
Gan roddi moliant
I'r Arglwydd;

Diau na sylfir
Hwynt oddiar randir
Seion eglwys glir
Dragywydd.

*H. Salbri, y 15 Salm.*

## XLIII. PENNOD.

*Am Genatauad.*

CENATAUAD sy ffugyr lunweddawl, pan fo yr areithiwr yn ymddiried yn ddirfawr i'w achaws, ac yn cenadu i'r ynadoedd, i'r carddyn, neu i'r casddyn, ei gyfystyr yn ddiragor, ac yn ddiragrith; ac wrth hyny o nawdd, i farnu amdano mal y bo yr achaws yn peri: os drwg, ei ddyfarnu; os da, ei brifoli.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân, fal hyn:*

Os rhodiais mewn gwegi, neu os prysurodd fy nhroed at ddichell; essafied fi mewn clorian cyfiawnder, a gwyped Duw oddiwrth fy nghyfanrwydd. O treiglodd fy nghamrau oddiwrth y ffordd hono, ac os fy mryd a ganlynodd fy llygaid; neu ynte, o glŷn dim wrth fy nwylaw; y peth a hauwyf bwytaed arall; a diwreidder fy mlaguroedd. Iob. 31. 5.

Yn y geiriau yma mae Iob yn hysbysu, ar ba ryw beth y mae ei unionoldeb ef yn gobwysaw; sef, ei fod yn aneuawg, ac yn anniwedus ger bron dynion, heb bechu ohono ef, yn gyhoeddus, yn erbyn yr ail daflan o'r gyfraith.

*Arall.*

Ai iawn yw yn ngolwg Duw ufyddâu i chwi, yn hytrach ai i Dduw, bernwch chwi. Act. 4. 10.

Wrth y geiriau hein mae yr apostolion yn cenadu i'r casddynion farnu yr arglwyddawd ddugiedig, heb wanychu na llesgâu dim o nerth eu hymadrawdd, na chwaith llesgâu ar eu cyngyd arfaethawl.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Py bai gwellt, a'r manwellt mân,
A'r grawn îr, a'r gro'n arian;
Nid allan', o dyellir,
Be rhon a hyn barâu 'n hir.

Gwelwch fod y bardd yn cenadu yr arglwyddawd, heb ddirymiaw dim oll ar ei amcan bwriadus.

II

Dull arall ar Genatauad sydd, pan oddefo yr areithiwr fwrw rhyw beth yn ei erbyn, gan ddwyn i mewn ryw beth arall, i gydoddef â'r bwriad blaenorawg, fal hyn:—

Ni allaf wadu nad yw y ffordd i gaffael dysg a doethineb yn deithhir ac yn boenllyd; y ddringfa yn serth, ac yn llithrawg; yr amser yn dywyll ac yn gymylawg; y gau-ffordd amdeithiawg yn amryfal; er hyny, pan gaffer hi, drwy lafur anorphwys, a gwadalwch hystadl, hi a ddwg gydag ehi elw mawr, a digrifwch i'r neb a feddo arni.

*Rhybudd.*

Y neb a arfero y ddull hon, edryched ar fod y defnydd yn dda; rhag iddo ei fwrw ei hun allan o bob rhadferthwch, wrth gynnyg gormod. Yn nesaf, gocheled roi gormod cenad; rhag bod tueddfryd, neu anwybyddiaeth yn y beirniaid: pei hyny, gwanäai ef ei arfaeth, wrth roi cenad gorbellig.

III.

Dull arall ar Genatauad y sydd, pan fo yr areithiwr yn goddef i'r casddyn ryw weithred yn watwarus; ac wrth hyny yn goluddiaw y peth, cyd bai y geiriau yn arwyddocâu amgenach.

*Engraff o'r Ysgrythyr Lân fal hyn;*

Ymlawenâa, ŵr ieuanc, yn dy ieuencdid, ac ymddigrifed dy galon yn nyddiau dy ieuencdid, cerdda ar ffyrdd dy feddwl, a golygiaethau dy lygaid. Eccles. 11. 9, 10.

Gwelwch yma fod Selyf megys yn goddef i ŵr ieuanc ganfforddi yn ei ewyllys ei hun, ond nid yw hyn o araeth ond goddefiad gwatwarus, ysbrydawl, yn lluddiaw y

cyfryw groesanaeth, mal y gellir gweled yn yr unrhyw wers, yn y geiriau hyn—Ond gwybydd y bydd yn ol hyn i'r Arglwydd dy ddwyn di i farn am hyn oll.

*Engraff mewn Prydyddiaeth.*

Nithiaist fi am a wnaethum,
Anfad fai, mai ynfyd fum.
'R wyf yn ffôl fyn'd i'th holi,
Ac annoeth wyf ganu â thi:
Ond wy'n gwybod fod a fu,
Mae'n fadws im' ynfydu. *Edm. Prys, i W. Cynwal.*

Rhaid i'r hyawdl areithiwr ochel rhag arfer y ddull hon ymhlith rhai anwybodawl; rhag tybied ohonynt roi cenad iddynt i wneuthyd y peth a waherddir iddynt, yn hyrith, ac yn hygudd, ar ymadrawdd goddefedig.

## XLIV. PENNOD.

### *Am Gytteuluad.*

Cytteuluad yw ffugyr, pan fo yr areithiwr yn cyfansoddi pethau amryfeilus a gwrthwynebus; er mwyn gwrthladd meddwl cyffredin y rhan fwyaf, neu yn hytrach y cwbl.

*Engraff fal hyn:*

Y cybydd a'r hael byrllawiawg, pob un ohonynt sydd ar fai; gan nad yw yr un ohonynt yn arfer eu golud modd y dyleynt; am eu bod yn ei gamarfer, ac yn ennill cywilydd oddiwrtho.

## XLV. PENNOD.

### *Am Lafaredigaeth.*

Hyd yn hyn bu traethawd am Addurneg, y rhan gyntaf o Ffraethineb; yn awr mae yn canlyn soniaw ychydig am Lafaredigaeth; sef y rhan arall.

Llafaredigaeth yw llafaru pob rhyw araeth ac ymadrawdd, yn eglur, ac yn drefnus, yn hysain, yn weddus, ac yn ganmoladwy.

Dau beth sydd i chwi i'w ystyriaw o ran llafaredigaeth; yn gyntaf, llais; yn ail, ymddygiad yr holl gorph.

I.

O ran y y llais: yn gyntaf, rhaid yw i'r areithiwr gadw cymmedrolder; sef, na bo hi na rhy ddofn, na rhy fain, ac na bo hi unsain; yn nesaf, llafared bob gair yn ol cyfaddaseb y frawddeg, a'i harweddocâad; mal y bo amrywder ac anghyffelybrwydd y nwydau yn gofyn ac yn goddef; yn drydydd, llafared bob brawddeg yn ol rhywiau y nwydau, a'r achosion defnyddiawl, a font amgyffredig yn yr araeth.

Yn ddiau un o'r priodoliaethau penaf, ar sydd yn perthyn i areithiwr ffraethlawn a pharablddoeth yw, bod o'i dafawd yn weisgi, yn gyflymair, yn drobelydr, ac yn arferawl o draethu a hòni pethau i gynnyddu areithwriaeth a ffraethineb.

II.

O ran ymddygiad y corff, rhaid i'r a eithiwr gymmeryd gofal ar iddo fod yn wrwedd, ac nid yn amaeidlyd.

Y mae yr ymddygiad yn rhoddi enaid yn y pethau a adroddir; yn cynhyrfu y gwrandawwyr, ac yn eu tyneru hwynt, gan lareiddiaw a meddalu eu coeliedigaethau gwrthnysig, gan beru iddynt goeliaw mai gwir yw y peth, yn yr hwn y mynent ei sefydlu.

Ac yma mae un peth hynod o ran yr ymddygiad i'w ystyriaw; nid amgen, nad yw yr araeth, a ysgrifenir mewn pabwyr, ac efelly a ddarllenir, yn gweithredu hanner cymaint yn nghalonau y gwrandawwyr o ymmodfryd, a phan draethir hi ar dafawd laferydd, yn wiwrwydd, yn soniarus, ac o ddyfnder calon. Yr achaws paham yw, am nas gall gŵr â'i raffol, neu bin, ysgrifenu, neu ddelweddu y mynydiau ymmodawl, a'r ymddygiad, sydd raid i'r areithiwr, wrth ymadrawdd, eu dangaws, yn ol dirdeb y nwydau, ac arwyddocâad y brawddegau. Ac herwydd hyny y dywed Plato, fod rhagoriaeth mawr rhwng ffurf ymddyddan yn hyffraeth, ac ysgrifenu yn hyddoeth: oblegid nyni a welwn laweroedd a ymadroddant yn barablaidd iawn, heb fedryd rhoi eu meddwl mewn ysgrifen haner da: ac eraill, yn ngwrthwyneb, yn ysgrifenu eu meddwl yn odidawg, ac yn parablu yn anghymhen.

Nid af fi i roi ar lawr yma pa wedd y mae i'r areithiwr yn bendant ymddwyn, o ran y pen, y llygaid, y ddwyfron, y traed, y dwylaw; oblegid mae yn hawsach dysgu hyny wrth edrych a dal selw ar wyr doeth dysgedig, pwy un ai pregethwyr duwiawl, ai cyfreithwyr parablbur, yn ymddwyn eu hunain ar air ac ymddygiad, pob rhan o'u cyrff, pan fyddant naill ai yn pregethu gair Duw yn ddirfrydus, ynte yn llys y teyrn yn areithiaw yn mhlaid cyfiawnder, rhwng plaid a phlaid, rhwng gwan a chadarn; i gael i bawb a ddyleu, er meithrin brawdwriaeth, mammaethu cydundeb, a chynnal tangneddyf. Yr hon Duw a'i danfono, gyda chynnydd a llwyddiant gwir grefydd Crist, i araws yn ein plith, i barâu yn llwyddiannus, er mawl i'r tragywyddawl Dduw, ac er clod ei drugaredd arnom yn oes oesoedd. Amen.

GOGONIANT I DDUW.

DYBEN.

---

# Hysbysiad

PERTHYNOL I'R AIL ARGRAFFIAD.

*BYDDED hysbys i'r darllenydd ddarfod i ni fwrw ymaith rai pethau yn rhagflaenu yr Egluryn yn yr argraffiad cysefin, gan y gellid eu hebgor yn hawdd ddigon; sef, taflen o geinciau areitheg, enwau y trofegau a'r dullweddau, y pennodau, llythyr annerch yn Lladin, pennillion mawl i'r llyfyr yn Lladin a Saesoneg, ac egwyddor y Gymraeg.*

O. MYFYR.

G. O. O FEIRION.

# Cynnwysiad.

| | TU DAL. |
|---|---|
| Am Addurneg | 9 |
| Am Drawsenw yr Achaws gwneuthuriawl | 10 |
| Am Drawsenwad y Defnyddiawl | 11 |
| Am drawsenw yr Achosedig | 13 |
| Am Drawsenwad Sylfon | 14 |
| Am Drawsenwad Darymsawdd | 17 |
| Am Watwargerdd a'i rhithoedd | 22 |
| Am Grybwylleb | 23 |
| Am Farw-wawd | 24 |
| Am Ffroenwawd | *ib.* |
| Am Anhagreb | 25 |
| Am Drawsymddwyn | 26 |
| Am Ddychymygair | 28 |
| Am Gyforddwyn | 29 |
| Am Gyforddwyn darn | *ib.* |
| Am Gyforddwyn rhith | 30 |
| Am Gyforddwyn cydawl a chyfan | 32 |
| Am Gyforddwyn rhyw | 33 |
| Am Ledenwiad *(Antonomasia)* | *ib.* |
| Am Ddamchweiniau trofeg | 34 |
| Am Aralleg | *ib.* |
| Am Rwmeg | 35 |
| Am Ddiheureb | 36 |
| Am Orwireb | 37 |
| Am Gynnyddiaith *(Auxesis)* | 38 |
| Am Eiddileb *(Meiosis)* | 39 |
| Am Gamarferiad | 40 |
| Am Wahaniad Ymadrawdd a'i nodau | *ib.* |
| Am Ddull Ymadrawdd | 42 |
| Am Gyfieuad | *ib.* |

TU DAL.
Am Rwngsangiad .... 43
Am Drycheb .... 44
Am Wahansangiad .... ib.
Am Adgymeriad .... 45
Am Orgytgam .... 46
Am Edryd .... 47
Am Ddarymchwel .... 49
Am Ailymgyrch .... 51
Catblyg .... 53
Gwrthymgyrch .... 54
Am Ddadymchweliad .... ib.
Am Argyfenwad .... 56
Am Amddychwel .... 57
Am Ddullwedd Brawddeg .... ib.
Am Ddirlais .... 58
Am Ailgywair .... 63
Am Attaliaith .... 65
Am Gyfagwedd .... 66
Am Ddadymchweliad .... 67
Am Ddynsawdwedd .... 69
Am Betrusad .... 72
Am Ogylchiaith .... 73
Am Globyniaeth .... 74
Am Gyffrediaeth .... 75
Am Dansangiad .... 76
Am Ledymddwyn .... 77
Am Genatauad .... 78
Am Gytteuluad .... 80
Am Lafaredigaeth .... ib.

*DIWEDD.*

*John Jones, Argraffydd, Llanrwst.*